

Adroddiad Blynyddol

2010-11



Confensiynau a byrfoddau

Blwyddyn Ariannol (1 Ebrill - 31 Mawrth) 2010-11

Blwyddyn Academaidd (1 Awst - 31 Gorffennaf)
2010/11

AU – addysg uwch

AB – addysg bellach

SAUau – sefydliadau addysg uwch

SABau – sefydliadau addysg bellach

CALI – cyfwerth ag amser llawn

I gael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn, neu gopi mewn fformat gwahanol, e-bostiwch info@hefcw.ac.uk neu llwythwch gopïau i lawr o www.hefcw.ac.uk.

© *Hawlfraint CCAUC 2011*

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) biau hawlfraint y cyhoeddiad hwn. Gall y deunydd gael ei gopïo neu ei atgynhyrchu ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell ac na ddefnyddir y deunydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, at elw masnachol. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig CCAUC ymlaen llaw os bwriedir defnyddio'r deunydd.

Cynnwys

Ynglŷn â CCAUC	4
Ein fframwaith strategol.....	5
Cynnydd yn erbyn mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol	6
Datganiad y Cadeirydd.....	9
Datganiad y Prif Weithredwr.....	10
Cyllido addysg uwch	12
Data am fyfyrwyr.....	16
Ehangu mynediad	19
Profiad y myfyriwr.....	22
Sgiliau	25
Trosglwyddo gwybodaeth	28
Ymchwil.....	30
Ailgyflunio a chydweithio	32
Llywodraethu	34
CCAUC fel sefydliad.....	37
Aelodau Pwyllgorau ac aelodau'r Cyngor	39
Cyfrifon cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011	42

Ynglŷn â CCAUC

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Sefydlwyd CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Gweinyddwn y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch (AU) yng Nghymru, a rhai cyrsiau AU a ddarperir mewn colegau addysg bellach. Rydym yn gyfrifol am hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA), gan gynnwys achredu darparwyr HCA o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

Ein gweledigaeth

Dymunwn ddatblygu a chynnal addysg o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru a thu hwnt.

Ein Cenhadaeth

Defnyddiwn adnoddau a dderbyniwn gan Lywodraeth Cymru ac eraill mewn ffordd strategol i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Er mwyn

- cynyddu cyfiawnder cymdeithasol, a
- chefnogi economi fywiog.

Ein fframwaith strategol

Gweledigaeth:
Addysg uwch gynaliadwy o safon
ryngwladol

I gyflawni:
Cyfiawnder cymdeithasol ac
economi bywiog

Themâu Strategol

Ehangu Mynediad

Sicrhau
tegwch, cyfle a
llwyddiant mewn
addysg uwch.

Profiad y Myfyrwyr

Sicrhau bod
profiad y
myfyrwyr o
ansawdd uchel.

Sgiliau

Sicrhau bod
pawb sy'n
graddio yn barod
am fyd gwaith
a'u rôl fel
dinasyddion.

Trosglwyddo Gwybodaeth

Sicrhau
perthnasoedd
mwy cynhyrchiol
rhwng
sefydliadau
addysg uwch a'r
sectorau
cyhoeddus a
phreifat,
cymunedau lleol
ac asiantaethau
eraill.

Ymchwil

Sicrhau gwell
perfformiad
ymchwil a fydd
yn sylfaen i'r
economi
gwybodaeth ac
adfywiad
diwylliannol a
chymdeithasol.

Wedi'u cefnogi gan

Ailgyflunio a Chydweithio

Datblygu cyfundrefn addysg uwch ailgyfluniedig
gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn
partneriaeth, yn enwedig yn rhanbarthol, yn
cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch.

Llywodraethu

Sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd
llywodraethu a chynaliadwyedd tymor hir y
gyfundrefn addysg uwch.

Cynnydd yn erbyn mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol


Mesur strategol	Gwaelodlin	Cynnydd
1 Cynnydd o 10% yng nghyfran y myfyrwyr sy'n dod o Gymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n byw yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru, o 15.6% yn 2008/09 i 17.2% yn 2012/13.	2008/09	2009/10
	15.6%	16.2%
2 Cynnydd o 2.7% yn y gyfradd cwblhau modiwlau ar gyfer cofrestriadau israddedig yn sefydliadau addysg uwch Cymru, o 87.6% yn 2008/09 i 90% yn 2012/13.	2008/09	2009/10
	87.6%	90.1%
3 Bydd y sgôr gyfartalog dreigl dair blynedd ar gyfer Cymru yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol'* yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn hafal i, neu'n fwy na'r sgôr gymharol ar gyfer y DU. <i>* Mae 'sgôr' yn golygu canran y myfyrwyr a gytunodd gyda 'Yn gyffredinol, rwy'n fodlon gyda safon fy nghwrs'.</i>	2007 i 2009 Sgôr gyfartalog dreigl 3 blynedd	2009 i 2011 Sgôr gyfartalog dreigl 3 blynedd
	Sefydliadau AU Cymru 83.3%	Sefydliadau AU Cymru 82.7%
	Sefydliadau AU y DU 81.7%	Sefydliadau AU y DU 82.7%
4 Bydd nifer y myfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi o 4,586 yn 2008/09 i 5,509 yn 2012/13.*	2008/09	2009/10
	4,586	4,612
5 Bydd y twf canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cyfartalog ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr).	2007/08 i 2008/09 twf %	2008/09 i 2009/10 twf %
	Sefydliadau AU Cymru 15.1%	Sefydliadau AU Cymru 26.7%
	Sefydliadau AU y DU (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr) 10.4%	Sefydliadau AU y DU (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr) 11.9%

*Mae'r gwaelodlin a'r targed wedi cael eu diwygio i adlewyrchu cywiriad data 2008/09.

Mesur strategol	Gwaelodlin	Cynnydd
6 Bydd y gyfran o raddedigion sy'n gadael addysg uwch gyda graddau cyntaf o gyrsiau amser llawn ac sydd mewn gwaith, yn astudio neu'r ddau chwe mis ar ôl gadael, yn hafal i, neu'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU erbyn 2012/13.	2008/09 % a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis	2009/10 % a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis
	Sefydliadau AU Cymru 91.2%	Sefydliadau AU Cymru 91.9%
	Sefydliadau AU y DU 89.9%	Sefydliadau AU y DU 90.4%
7 Erbyn 2012/13 bydd cynnydd o 8% i'r cyfartaledd cenedlaethol presennol yng nghyfradd cyfranogiad absoliwt myfyrwyr o bum awdurdod unedol Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru (o 2.5% i 2.7%).	2007/08	2008/09
	2.5%	2.5%
8 Bydd cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn codi o 54,714 yn 2008/09 i 59,000 yn 2012/13.	2008/09	2009/10
	54,714	50,243 ¹
9 Bydd nifer y cwmnïau deilliadol gweithredol sydd wedi goroesi am dair blynedd o leiaf yn cynyddu 10% o 252 yn 2008/09 i 277 yn 2012/13.	2008/09	2009/10
	252	301
10 Bydd y twf canrannol blyneddol mewn incwm o'r Cynghorau Ymchwil yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys y 'triongl euraid', sef Rhydychen, Caergrawnt a Llundain). [Yn 2008/09, roedd incwm AU Cymru o'r Cynghorau Ymchwil yn cyfrif am 4.8% o gyfanswm y DU.]	2007/08 i 2008/09	2008/09 i 2009/10
	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU Cymru 17.4%	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU Cymru 3.0%
	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU y DU 13.9%	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU y DU 3.1%

1. Ar hyn o bryd rydym yn priodoli hyn i gyfuniad o ostyngiad posibl mewn galw economaidd, ailstrwythuro cyrsiau am resymau academaidd a chynaliadwyedd ariannol amrywiol, a thynnu'n ôl o fasnachfreintiau. Byddem yn disgwyl rhywfaint o welliant yn y dyfodol mewn ymateb i ddarpariaeth ran-amser newydd sy'n dod i'r amlwg mewn rhai sefydliadau.

Mesur strategol	Gwaelodlin	Cynnydd
<p>11 Bydd gan o leiaf 75% o sefydliadau addysg uwch Cymru incwm blynyddol sy'n fwy na'r canolrif ar gyfer y DU (36% yn 2008/09), ac ni fydd unrhyw sefydliad yn y chwarter isaf erbyn 2012/13 (4 yn 2008/09).</p>	2008/09	2009/10
	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 36% (4 sefydliad o blith 11)	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 45% (5 sefydliad o blith 11)
	Yn y chwarter isaf 36% (4 sefydliad o blith 11)	Yn y chwarter isaf 36% (4 sefydliad o blith 11)
<p>12 Ni fydd unrhyw sefydliad addysg uwch yn cael ei ddsbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.</p>	2008/09 Nifer y sefydliadau AU a ddsbarthwyd yn 'risg uchel'	2009/10 Nifer y sefydliadau AU a ddsbarthwyd yn 'risg uchel'
	0	0



Datganiad y Cadeirydd

Bu 2010-11 yn flwyddyn o fynd i'r afael â'r hyn y mae strategaeth addysg uwch Llywodraeth Cymru, *Er Mwyn ein Dyfodol*, yn ei olygu i AU yng Nghymru, wrth i ni ymgorffori ei hegwyddorion a'u rhoi ar waith.

Ein gweledigaeth yw datblygu a chynnal addysg o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru a thu hwnt.

Fodd bynnag, credwn y gallai'r sector addysg uwch yng Nghymru weithio hyd yn oed yn fwy effeithiol nag y mae ar hyn o bryd - er enghraifft, drwy sicrhau grantiau ymchwil yn well neu gynnal portffolio pwnc eang - a chynnig gwasanaeth hyd yn oed yn well i ddysgwyr a chyflogwyr pe bai sefydliadau'n cydweithio'n agosach. Ym mis Rhagfyr 2010 gwnaethom nodi ein barn na fyddai gan y sector AU cryfaf posibl yng Nghymru fwy na chwe sefydliad addysg uwch (gyda champysau lluosog), yn ogystal â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, heb fwy na dau sefydliad ym mhob un o dri rhanbarth Cymru.

Dylai'r broses o edrych yn well ar yr amrediad o bynciau sydd ar gael mewn sefydliadau ymestyn mynediad i addysg uwch. Bydd nifer llai o sefydliadau cryfach yn rhoi adenillion gwell i gyllid cyhoeddus, a byddai'n golygu eu bod mewn sefyllfa well i wrthsefyll unrhyw ansicrwydd cyllido yn y dyfodol. Rydym yn falch nad yw'r un ohonynt mewn perygl o gau yn y dyfodol agos. Mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau mai felly y bydd pethau yn y dyfodol hefyd.


Ar gais y Gweinidog, gwnaethom ddatblygu ein datganiad ym mis Rhagfyr i gynnwys set o argymhellion mwy cyflawn a phenodol ar gyfer strwythur y sector addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol, a chyhoeddodd y Gweinidog hyn ym mis Mehefin 2011. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am gyflwyniadau gan bob parti a oedd â diddordeb erbyn mis Hydref 2011, cyn y bydd yn dod i gasgliad am strwythur y sector. Cynhelir ymgynghoriad pellach ag unrhyw sefydliadau y bydd y canlyniadau yn effeithio arnynt.

Cafwyd datblygiadau sylweddol hefyd ym maes llywodraethu sefydliadau AU. Roedd *Llywyddiant ac atebolrwydd: Adroddiad yr adolygiad annibynnol o lywodraethu addysg uwch yng Nghymru* (adolygiad McCormick), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, yn mynd i'r afael â llywodraethu cenedlaethol a sefydliadol yn y sector addysg uwch yng Nghymru, ac roedd yn dynodi cyfraniad sylweddol i'r gwaith o ystyried llywodraethu AU yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno heriau pwysig i sefydliadau ac i bawb sy'n ymwneud ag addysg uwch yng Nghymru, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i gyflenwi'r penderfyniadau a fydd yn deillio o'i argymhellion maes o law. Rwy'n eithriadol o falch fod yr adroddiad yn cydnabod cryfderau ac arbenigedd CCAUC ac edrychaf ymlaen at ymateb i'r casgliadau posibl ynghylch ein rôl wrth lywodraethu AU.

Rydym hefyd wedi parhau â'n gwaith gyda'r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch i asesu a gwella effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ym maes addysg uwch, a gwnaethom lunio fersiwn diweddar o'n Pecyn Offer i lywodraethwyr, sy'n cynnwys detholiad o'r amrywiaeth eang o wybodaeth sydd ar gael i helpu llywodraethwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau i lywio a monitro cyfeiriad strategol eu sefydliad.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i aelodau'r Cyngor a'n holl staff am eu hymdrechion ardderchog yn ystod blwyddyn eithriadol o brysur. Edrychaf ymlaen at weld eu cefnogaeth barhaus wrth i ni weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaen.

Roger Thomas, OBE
Medi 2011



Datganiad y Prif Weithredwr

Gwelwyd nifer o newidiadau ym maes addysg uwch yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, a bu nifer o heriau i'w hwynebu.

Rydym yn parhau i weithio i gryfhau addysg uwch yng Nghymru ymhellach a datblygu a gweithredu polisiâu newydd i lywio'r sector drwy gyfnod cyllido dwys. Rydym wedi gwneud hynny o fewn fframwaith *Er Mwyn ein Dyfodol*, gan gadw golwg fanwl ar ddau nod, sef cyfiawnder cymdeithasol a hybu economi fywiog, a thrwy wynebu heriau newydd i CCAUC fel sefydliad.

Yn 2010-11, gwelwyd y canlyniadau cyntaf i addysg uwch yng Nghymru, fel mewn manau eraill yn y DU, o sefyllfa ariannol gyffredinol y sector cyhoeddus wedi'r dirwasgiad. Ar ôl pennu gostyngiad 4% yn ystod y flwyddyn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010/11, rydym wedi adolygu ein dull cyllido i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn ein Strategaeth Gorfforaethol, ac rydym wedi annog prifysgolion i ffocysu arnynt. Wrth baratoi ar gyfer setliad 2011/12, gwnaethom ymgynghori ar drefniadau i reoli niferoedd y myfyrwyr israddedig amser-llawn fel bod y gyllideb yn parhau i fod yn ddichonadwy.

Fodd bynnag, daw'r newid mwyaf mewn addysg uwch o'r penderfyniad y gallai ffioedd dysgu i israddedigion amser-llawn yn Lloegr godi i uchafswm o £9,000 y flwyddyn o 2012/13. Ni ellir anwybyddu goblygiadau'r cam hwn, yn enwedig yng nghyd-destun llif sylweddol y myfyrwyr sy'n croesi'r ffin.

Yr ymateb yng Nghymru oedd y dylid caniatáu i'r ffioedd godi i'r uchafswm hwnnw, yn amodol ar gynlluniau ffioedd sy'n mynd i'r afael â'r meini prawf o hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Gwnaed y penderfyniad hwn ynghyd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, waeth lle yn y DU y maent yn hastudio, i dalu - fel grant ffioedd - y gwahaniaeth rhwng y ffi newydd ar gyfer 2012/13 a'r hyn y byddai wedi'i

gostio o dan y system bresennol. Daeth CCAUC yn gyfrifol, nid yn unig am adolygu cynlluniau'r ffioedd, a'u cymeradwyo os oedd yn fodlon arnynt, ond hefyd am reoli'r dull o dalu grantiau ffioedd - cam sy'n ychwanegu cyfrifoldeb newydd ar gyfer cyllid myfyrwyr i'n cyfrifoldeb presennol ar gyfer cyllido addysg uwch.

Mae hyn oll yn cyfateb i drawsffurfiad i sail cyllido addysgu mewn addysg uwch. Rydym yn paratoi ar gyfer newid sylweddol yn y ffordd y byddwn yn gweithio gyda sefydliadau wrth i ni symud drwy'r cyfnod pontio tuag at system gyllido addysgu a arweinir gan ffioedd.

Mewn datblygiadau eraill, roeddem yn falch iawn o weld y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn realiti yn 2011, yn barod i groesawu ei fyfyrwyr cyntaf o flwyddyn academaidd 2011. Bydd y Coleg yn goruchwylio ac yn datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn AU yng Nghymru, gan weithio gyda'r prifysgolion. Gwnaethom hefyd weithio gyda sefydliadau i ddatblygu'r agenda ranbarthol, gyda'r nod o ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol yn well, drwy gydweithio â'r holl ddarparwyr perthnasol wedi'i rannu rhwng tri rhanbarth ledled Cymru. Mae rhai o'r enghreifftiau o'r hyn y mae'r datblygiadau hyn wedi arwain ato yn cynnwys lleoedd ychwanegol ym maes peirianeg awyrfod, Gradd Sylfaen mewn animeiddio cyfrifiadurol a gradd Meistr mewn cyfrifiadura perfformiad uchel. A gwnaethom barhau i weithio gyda sefydliadau mewn ardaloedd sefydledig megis ehangu mynediad a hyrwyddo cyfle cyfartal, gan sicrhau profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr, a sicrhau bod gwaith ymchwil, arloesedd ac ymgysylltiad ag agendâu cymdeithasol ac economaidd yn gynaliadwy. Mewn amgylchiadau ariannol anodd, mae'n bwysicach fyth bod prifysgolion yn dangos pam eu bod werth y buddsoddiad cyhoeddus a gânt, ac rydym wedi

parhau i chwarae rhan yn y broses honno, yn bennaf drwy ddangos hyder wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus a ddarperir drwy ein prosesau sicrwydd sefydliadol yn effeithiol.

Rydym wedi gweld cynnydd da eleni gyda'r rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad *Er Mwyn ein Dyfodol*, fel y dengys yn y tudalennau dilynol yn fanylach, ac eithrio gostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth ran-amser. Ymddengys fod y rhesymau dros hyn yn gymysgedd cymhleth o ostyngiad canfyddedig yn y galw economaidd, ailstrwythuro cyrsiau oherwydd cyfuniad o resymau academaidd ac ariannol, a thynnu'n ôl o fasnachfreintiau. Gallwn ddisgwyl rhywfaint o welliant yn y dyfodol mewn ymateb i ddarpariaeth ran-amser newydd sy'n dod i'r amlwg mewn rhai sefydliadau. Hefyd, mae'n debygol bydd y trefniadau newydd ar gyfer ffioedd a chyllid i fyfyrwyr ran-amser ar waith yn 2012/13.

Mae'n anochel bod y cyfnod hwn o newid cyflym yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu ein dulliau gwaith a'n heffeithiolrwydd sefydliadol yn barhaus. Gyda phreimiwm uwch ar sicrhau effeithlonrwydd drwy ddefnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu yn y ffordd orau, mae'n braf ein bod wedi cael ein hail-achredu ar gyfer IS27001, sy'n dangos ein bod yn cynnal y safonau uchaf o ran diogelwch gwybodaeth.

Fel pawb arall ym maes addysg uwch, mae CCAUC yn gweithio mewn amgylchedd sy'n datblygu'n gyflym, a hoffwn dalu teyrnged i'n staff, sy'n cyflenwi cynnyrch o'r safon uchaf yn fy marn i, ar draws amrywiaeth eang o feysydd yn erbyn amserlenni tynn iawn. Rwyf yn ddiolchgar iddynt am eu hymdrechion.

Yr Athro Philip Gummatt
Medi 2011

Cyllido addysg uwch

Rydym yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru ar sail blwyddyn ariannol (BAr) (1 Ebrill hyd 31 Mawrth), ac rydym yn dyrannu'r rhan fwyaf o'n cyllid ar sail blwyddyn academiaidd (BAc) (1 Awst hyd 31 Gorffennaf).

- Rydym fel arfer yn cyhoeddi ein grant blynyddol i sefydliadau addysg uwch ym mis Mawrth bob blwyddyn.
- Yn y flwyddyn ariannol 2010/11, gwnaethom weithredu newidiadau i drefniadau cyllido CCAUC, yn dilyn ymgynghoriad â'r sector addysg uwch.
- Gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad sylweddol ar sut i ddatblygu ein dull cyllido er mwyn ei alinio'n well â'r prif themâu yn ein Strategaeth Gorfforaethol o flwyddyn academiaidd 2011/12.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar sut i reoli nifer yr israddedigion amser-llawn mewn sefydliadau er mwyn rheoli'r galw ar gyllidebau myfyrwyr Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hyn, rhoddwyd canllawiau i brifysgolion ym mis Medi 2010.
- Gwnaethom gadarnhau y byddem yn gwneud gostyngiad yn ystod y flwyddyn o 4% ar elfennau o'n grantiau i sefydliadau yn y flwyddyn academiaidd 2010/11, yn dilyn cadarnhad o'n cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12 gan Lywodraeth Cymru.

Dyraniadau cyllid fformiwla ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2010/11

Gwnaethom gyhoeddi dyraniadau grant o dros £402.8 miliwn ar gyfer addysg uwch yn y Flwyddyn Academiaidd 2010/11 a £44.5 miliwn yn ychwanegol yn y flwyddyn ariannol 2010-11.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyllid rhaglen reolaidd o £402.8 miliwn.
- Cyllid sy'n uwch na'r gwaelodlin o £28.9 miliwn i gefnogi strategaeth *Er Mwyn ein Dyfodol* Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch (cyllid *Ymgeisio yn Uwch* yn flaenorol). Roedd hyn yn cefnogi ailgyflunio a chydweithio yn y sector, yn cynnwys £2.13 miliwn a ddyrannwyd i ehangu mynediad a £3.83 miliwn ychwanegol a glustnodwyd ar gyfer cyllid cyfalaf.
- Cyllid Cyfalaf o £15.6 miliwn.

O hyn, rhoddwyd £360.7 miliwn ar ffurf grant fformiwla (prif ffrwd) i'r sector addysg uwch ar gyfer addysgu, arloesedd a gweithgareddau ymgysylltu, ymchwil a hyfforddiant ymchwil ôl-raddedig. Roedd hyn yn cynnwys:

- £278.2 miliwn ar gyfer addysgu.
- £70.95 miliwn ar gyfer ymchwil.
- £5.41 miliwn ar gyfer ymchwil ôl-raddedig.
- £5.98 miliwn ar gyfer gweithgareddau arloesedd ac ymwneud.

Cyllid llinell sylfaen (rheolaidd) nad yw'n gyllid fformiwla

Roedd cyllid nad yw'n gyllid fformiwla yn cynnwys cymorth i fyfyrwyr, hyfforddiant cychwynnol i athrawon a dysgu ac addysgu.

Dyraniadau Cyllid Fformiwla 2010/11

Sefydliad	Cyfanswm cyllid fformiwla ar gyfer addysgu	Ymchwil (QR)	Dyraniadau Arloesedd ac Ymwneud	Ymchwil ôl-radd	Cyfanswm
	£	£	£	£	£
Prifysgol Morgannwg	47,293,451	2,905,359	1,067,966	314,929	51,581,706
Prifysgol Aberystwyth	23,265,811	7,208,678	450,930	405,930	31,331,350
Prifysgol Bangor	23,110,036	7,328,573	661,615	672,582	31,772,805
Prifysgol Caerdydd	65,907,731	37,871,527	1,185,910	2,849,866	107,815,033
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	12,678,087	859,991	294,922	71,740	13,904,739
Prifysgol Abertawe	27,190,688	11,946,193	1,164,269	959,156	41,260,306
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	25,930,575	1,428,734	431,784	118,990	27,910,083
Prifysgol Cymru, Casnewydd	16,384,797	527,741	236,122	12,573	17,161,233
Prifysgol Glyndŵr	14,231,693	282,772	203,647		14,718,112
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	11,745,448	245,209	187,636	4,437	12,182,730
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	7,936,906		96,000		8,032,906
Cofrestrfa Prifysgol Cymru		340,524			340,524
Coleg Pen-y-Bont	33,827				33,827
Coleg Sir Gâr	70,373				70,373
Coleg Llandrillo Cymru	1,069,767				1,069,767
Coleg Castell-nedd Port Talbot	120,478				120,478
Coleg Gŵyr Abertawe	1,242,388				1,242,388
Cyfanswm	278,212,056	70,945,301	5,980,800	5,410,200	360,548,357

*Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

Cyllid CCAUC 2010/11

Gwaelodlin

Rheolaidd	2010/11
Grant ar gyfer addysgu	(£)
Prif grant fformiwla	260,552,672
Y pen	5,430,150
Premiwm ehangu mynediad	8,031,356
Premiwm cyfrwng Cymraeg	1,489,092
Premiwm anabled	957,660
ERASMUS	1,221,701
Hepgor ffioedd i israddedigion rhan-amser	529,420
Cyllid rhan-amser Graham	5,944,320
Credydau wedi'u cyllido strategol	94,149
Cyfanswm	284,250,520
Grant ar gyfer ymchwil	
Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY): Grant wedi'i seilio ar ansawdd	70,945,301
Ymchwil ôl-radd	5,410,000
<i>Cynlluniau - Cymru</i>	
Bwrdd Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Cymru	104,000
Gwasg Prifysgol Cymru	132,042
<i>Cynlluniau - y DU</i>	
Cynllun Gwobrau Myfyrwyr Ymchwil Tramor (ORSAS)	220,000
Rhaglen Llyfrgelloedd Cefnogi Ymchwil (RSLP)	
Rhwydwaith Llyfrgelloedd Ymchwil (RLN)	50,000
Cyfanswm	76,861,343
Strategaeth a chynlluniau	
Strategaeth a chynlluniau	20,962,656
Cronfa amrywiol Swyddfa'r Prif Weithredwr	200,000
Cyfanswm	21,162,656

Arloesedd ac Ymwneud	
GO Wales	1,809,543
Cwmnïau deilliedig (Spinout)	250,000
Arloesedd ac ymwneud	5,980,000
Cyfanswm	8,039,543
Cyfanswm Cyllid Rheolaidd	390,314,062
Cyfalaf (dyrannwyd ar sail BAr)	
Ymchwil	10,762,000
Addysgu	4,844,000
Cyfanswm	15,606,000

Uwchben y waelodlin

Cyllid Strategaeth AU Llywodraeth Cymru	
Blwyddyn Ariannol	2010-11
Ailgyflunio a chydweithio	12,298,244
Ehangu mynediad	2,132,756
Cyllid cyfalaf <i>Ymgeisio'n Uwch</i>	3,830,000
Ailgyflunio hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA)	4,058,134
Ymrwymadau <i>Cymru'n Un</i>	6,558,000
Cyfanswm	28,877,134

Data am fyfyrwyr 2009/10

	Israddedigion - gradd		Israddedigion - nid gradd		Israddedigion (IR)	
	Amser-llawn	Rhyngosod	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser (heb gynnwys IR ffranseis)	Rhan-Amser (Ffranseis)
Prifysgol Morgannwg	10,284	45	2,060	4	3,471	1,681
Prifysgol Aberystwyth	6,440	63	113	24	2,045	34
Prifysgol Bangor	6,692	26	116	0	827	21
Prifysgol Caerdydd	16,077	311	108	0	4,699	0
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	1,361	0	68	0	764	3
Prifysgol Abertawe	9,835	45	180	0	1,868	0
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	6,413	41	680	0	614	77
Prifysgol Cymru, Casnewydd	2,740	0	300	0	1,857	1,626
Prifysgol Glyndŵr	2,723	0	366	0	3,202	443
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	2,595	2	410	0	1,298	0
Coleg Prifysgol y Drindod	1,412	0	0	0	915	0
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	0	0	5,311	0
Coleg Pen-y-bont	0	0	31	0	5	0
Coleg Sir Gâr	219	0	0	0	89	0
Coleg Llandrillo Cymru	140	0	257	0	385	0
Coleg Castell-nedd Port Talbot	0	0	25	0	42	0
Coleg Gŵyr Abertawe	0	0	0	0	2	0
Cyfanswm	66,930	533	4,714	28	27,394	3,885

Ffynhonnell: Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) o Gofrestriadau Addysg Uwch 2009/10

Nodiadau: 1 Cyfrifir myfyrwyr rhyngosod fel 1

2 Cynhwysir cofrestriadau cyllidawdy, anghyllidawdy, tramor ac ynysoedd


3 Mae Ffranseis yn cynnwys israddedigion rhan-amser yn unig

4 Mae Israddedigion rhan-amser yn cynnwys cofrestriadau gradd ac nid gradd


5 Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

Ôl-radd a addysgir			Ymchwil Ôl-radd			Cyfanswm
Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser	
1,445	0	1,637	146	0	274	21,046
543	0	808	232	0	68	10,370
1,035	0	703	513	0	148	10,080
2,635	0	3,336	1,236	0	299	28,701
518	0	379	45	0	80	3,218
884	0	452	548	0	143	13,955
1,048	0	1,055	105	0	121	10,154
381	0	1,086	30	0	25	8,045
608	0	369	39	0	55	7,805
183	0	504	22	0	57	5,071
492	0	135	0	0	0	2,953
0	0	324	0	0	0	5,635
0	0	0	0	0	0	36
0	0	0	0	0	0	308
0	0	0	0	0	0	782
0	0	0	0	0	0	67
0	0	0	0	0	0	2
9,771	0	10,788	2,915	0	1,270	128,227


Cofrestriadau yn ôl lefel a modd



Cofrestriadau yn ôl lefel



Cofrestriadau yn ôl modd



Ehangu mynediad

Sicrhau tegwch, cyfle a llwyddiant mewn addysg uwch

Mae cyfiawnder cymdeithasol yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

Mae gan brifysgolion gyfraniad pwysig i'w wneud at y nod hwn yn nhermau ehangu mynediad i addysg uwch.

Mae ein nodau'n cynnwys:

- cynyddu mynediad i addysg uwch i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes AU, yn cynnwys blaenoriaethu recriwtio o ardaloedd 'Cymunedau yn Gyntaf', a nodwyd fel y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- sicrhau ein bod yn cadw myfyrwyr mewn addysg uwch a'u bod yn llwyddo
- annog hyblygrwydd mewn cyrsiau AU, fel cyfleoedd i astudio'n rhan amser.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch sy'n:

- gweithredu strategaethau i ehangu mynediad i addysg uwch a chynyddu'r ddarpariaeth i fyfyrwyr anabl;
- derbyn cyllid ehangu mynediad penodol i gydnabod y costau ychwanegol sy'n codi pan fydd angen cymorth ychwanegol ar rai myfyrwyr, fel datblygu sgiliau neu fagu hyder, cyn iddynt gychwyn ar gwrs AU, neu i gadw myfyrwyr ar eu cyrsiau sy'n dod o gefndir lle nad oes fawr ddim traddodiad o gymryd rhan mewn AU a deall arferion addysg uwch;
- derbyn eu cyllid ar gyfer addysgu ar sail credydau er mwyn cefnogi dysgu hyblyg, yn cynnwys darpariaeth rhan amser mewn sefydliadau addysg uwch a hwyluso dilyniant i addysg uwch;
- derbyn cyllid ychwanegol pellach - cyllid 'premiwm' - am recriwtio myfyrwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill lle mae cyfranogiad yn isel, myfyrwyr â chymwysterau anhraddodiadol a myfyrwyr sy'n derbyn lwfans myfyrwyr anabl;

- darparu cynlluniau i annog pobl o bob oedran i godi eu dyheadau addysgol, gwella'u sgiliau a chymryd rhan mewn AU. Mae'r Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach yn cydlynu gweithgareddau rhanbarthol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i dargedu unigolion, grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn draddodiadol mewn addysg uwch; ac
- enwebu aelodau ar gyfer ein Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, sy'n cynghori ein Cyngor ar bolisi yn y maes hwn.

Gweithgareddau yn 2010-11

- Cafodd sefydliadau addysg uwch gyfanswm o £8.03 miliwn ar gyfer cyllid premiwm ehangu mynediad. Roedd cyfanswm y cyllid premiwm ar gyfer myfyrwyr anabl yn fwy na £0.95 miliwn. Cawsant tua £2 filiwn ar gyfer menter Ymgynraedd yn Ehangach, a £2.016 miliwn i weithredu **strategaethau ehangu mynediad**.
- Gwnaethom ddyrannu £2 filiwn ychwanegol i'r **premiymau ehangu mynediad**. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn i gynyddu'r premiwm ehangu mynediad cyfredol tra'n cadw premiwm myfyrwyr anabl ar £220. Roedd yr effaith yn golygu y gellid cynyddu'r cyllid i'r rhai a gafodd eu recriwtio o gefndiroedd llai cefnog a/neu o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o £215 i £285 fesul myfyriwr. Cafodd gweddill y cyllid a oedd ar gael ei ddyrannu i fyfyrwyr a allai fod yn anoddach i'w cadw (fel y rhai sydd â chymwysterau anhraddodiadol).
- Gwnaethom ddatblygu ein **Hymagwedd Strategol a'n Cynllun Strategol ar gyfer Ehangu Mynediad i Addysg Uwch 2010/11 i 2012/13**. Roedd hyn yn nodi sut y byddai CCAUC yn gweithio gyda phrifysgolion i fodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfiawnder cymdeithasol ac economi fywiog. Mae ein *Hymagwedd Strategol* yn parhau i sicrhau bod cyfleoedd dysgu yn flaenoriaeth i bobl o bob

oedran o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, yn enwedig ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Gwnaethom hefyd roi pwys ar ddarparu ffyrdd newydd a hyblyg o astudio, yn cynnwys mwy o ddysgu yn y gweithle, dysgu rhan amser a dysgu lleol.

- Gwnaethom lunio canllawiau cychwynnol i sefydliadau i ddatblygu eu Strategaethau Ehangu Mynediad, a oedd yn cynnwys y cyfle i ddatblygu'r rhain ar y cyd â'r Strategaethau Dysgu ac Addysgu.
- Roedd y ffigurau diweddaraf ar draws y DU am gyfansoddiad y sector addysg uwch yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i berfformio'n dda wrth **recriwtio myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**. Roedd gan Gymru gyfrannau tebyg neu uwch o fyfyrwyr o'r mwyafrif o grwpiau heb

gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch o'u cymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd.

- Gwnaethom gytuno ar drefniadau ar gyfer ariannu a monitro **Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI)**, gan gynnwys darparu £1.39 miliwn i 397 o ddysgwyr ychwanegol mewn AU o ardal UHOVI yn 2010/11.
- Rhoddwyd £6.2 miliwn o gymorth ychwanegol i **fyfyrwyr rhan amser**, gyda'r nod o gynnal a chryfhau cyrsiau rhan amser sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ehangu mynediad i addysg uwch ac ymestyn cysylltiadau â chyflogwyr.
- Roedd y camau gweithredu uchod yn cyfrannu'n sylweddol at yr **agenda les** yng Nghymru, ac yn cefnogi cynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol.

Cyflenwi cyfrifoldebau yn 2010-11, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
<p>Chwarae rôl flaenllaw wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (UHOVI).</p> <p>Sicrhau bod dulliau llwyddiannus o ehangu mynediad i'r gwaith o ddatblygu'r UHOVI yn cael eu rhoi ar waith ar draws Cymru, gan gynnwys: nodi o leiaf dau fodel o arfer effeithiol y gellir eu haddasu neu eu gweithredu mewn rhannau eraill o Gymru.</p>	<p>✓ Cwblhawyd.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaethau gyda Phrifysgolion Morgannwg a Chasnewydd ynghylch arferion da UHOVI.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac eraill ynghylch datblygu'r strategaeth addysg ar gyfer ardal blaenau'r cymoedd.</p>

Perfformiad yn erbyn Mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

01	Pwrpas	Mesur mynediad gwell a datblygiad i bobl mewn lleoliadau lle mae cyfleoedd o'r fath yn isel, gan gynnwys ardal blaenau'r cymoedd.	
	Mesurwyd gan	Cynnydd o 10% yng nghyfran y myfyrwyr sy'n dod o Gymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n byw yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru, o 15.6% yn 2008/09 i 17.2% yn 2012/13 .	
		Gwaelodlin	Cynnydd
		2008/09	2009/10
		15.6%	16.2%

02	Pwrpas	Mesur cynnydd yn nifer y myfyrwyr a gwblhaodd eu hamcanion dysgu'n llwyddiannus.	
	Mesurwyd gan	Cynnydd o 2.7% yn y gyfradd cwblhau modiwlau ar gyfer cofrestriadau israddedig yn sefydliadau addysg uwch Cymru, o 87.6% yn 2008/09 i 90% yn 2012/13 .	
		Gwaelodlin	Cynnydd
		2008/09	2009/10
		87.6%	90.1%

Profiad y myfyriwr

Sicrhau bod profiad dysgu'r myfyrwyr o safon uchel

Mae canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, ac arolygon o brofiad myfyrwyr tramor yng Nghymru, yn dangos y flaenoriaeth a roddir ar sicrhau profiad rhagorol i fyfyrwyr o ran poblogaeth amrywiol, a sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei lleisio'n barhaus.

Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod safon y ddarpariaeth a gyllidir mewn sefydliadau addysg uwch yn cael ei hasesu, ac am helpu'r sector AU yng Nghymru i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn rhan o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein nodau'n cynnwys:

- sicrhau bod profiad dysgu'r myfyrwyr o safon uchel ym maes addysg uwch yng Nghymru
- annog sefydliadau i wella profiad y myfyriwr yn barhaus ar gyfer poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr
- gwerthuso dysgu sydd wedi'i wella gan dechnoleg i adlewyrchu ffurfiau newydd ac arloesol o ddysgu
- gweithio gyda'r sector addysg uwch yng Nghymru i ymestyn amrywiaeth y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- rydym yn eu cyllido drwy ddarparu cyllid i weithredu strategaethau dysgu ac addysgu a rhannu arfer da, yn cynnwys gwella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg;
- y mae eu safonau a'u hansawdd yn cael eu hasesu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA);
- drwy gyllido'r Academi Addysg Uwch sy'n cefnogi'r sector AU gyda'i nod o ddarparu'r profiad dysgu gorau posibl i bob myfyriwr;
- rydym yn eu cyllido i gynnal a datblygu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg;

- sy'n enwebu aelodau ar gyfer ein Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, a'n Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud, sy'n cynghori ein Cyngor ar faterion polisi yn y meysydd hyn; a
- i fynd i'r afael â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang.

Rydym hefyd yn gweithio gyda:

- Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB) ac Uned Ewrop AU y DU ar gyfleoedd o fewn Ardal Addysg Uwch Ewrop sy'n gwella profiad y myfyriwr.
- Consortïwm Rhyngwladol Cymru ac Uned Ryngwladol AU y DU ar gyfleoedd sy'n annog rhyngwladoli ymhellach mewn sefydliadau AU.
- Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru, drwy Fenter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (WISE), a thrwy gefnogi ymgyrch 'Dweud eich Dweud'.

Gweithgareddau yn 2010-11

- Parhawyd â'r gwaith o ddatblygu **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol** (cyfeiriwyd ato fel Y Coleg Ffederal gynt), a phenodwyd Mr Geraint Talfan Davies ym mis Ebrill 2010 gan CCAUC yn gadeirydd y Bwrdd Gweithredu ar gyfer y Coleg. Bu'r Bwrdd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith cyfreithiol a pharatoadau eraill i'r Coleg, a fydd yn gweithio gyda'r prifysgolion yng Nghymru i gynnal a datblygu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Penodwyd yr Athro Merfyn Jones yn gadeirydd cyntaf y Coleg ym mis Rhagfyr 2010. Erbyn diwedd mis Mawrth 2011 roedd y Coleg wedi cael ei ymgorffori'n gyfreithiol a chyfarfu ei fwrdd o 13 o gyfarwyddwyr am y tro cyntaf, gan sicrhau bod y Coleg yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd gyntaf ym mis Medi 2011.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau ar gyfer system newydd i godi **ffioedd dysgu** ym

maes addysg uwch o 2012/13 ymlaen, yn dilyn cyhoeddiad yn hydref 2010 gan Lywodraeth San Steffan o'i chynlluniau i ganiatáu i ffioedd dysgu ym mhrifysgolion Lloegr godi i £9,000. Chwaraeodd CCAUC rôl weithgar yn yr ymgynghoriadau dilynol gyda sefydliadau a gofynnwyd iddo ofyn am Gynlluniau Ffioedd gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru. Roedd angen i unrhyw sefydliad a oedd yn dymuno codi dros £4,000 fesul myfyriwr israddedig amser llawn gael cynllun ffioedd wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2012/13. Byddai sefydliadau yn buddsoddi cyfran o incwm ffioedd i fynediad cyfartal a hyrwyddo addysg uwch.

- Gwnaethom ofyn i brifysgolion (a sefydliadau AB sydd â mwy na 6,000 o gredydau AU, boed drwy fasnachfaint, cyllid uniongyrchol, neu gymysgedd o'r ddau) gyhoeddi **'datganiadau cyflogadwyedd'** ar wefan Unistats, gan nodi'r cymorth maent yn ei ddarparu i fyfyrwyr i wella'u cyflogadwyedd.
- Gwnaethom gefnogi gwaith yr Academi Addysg Uwch ar wella dysgu ac addysgu a **phrofiad y myfyriwr** yng Nghymru.
- Roedd yr adroddiad *Effaith Myfyrwyr Rhyngwladol ac UE yng Nghymru* yn edrych ar y **buddion economaidd** hirdymor ehangach y **mae myfyrwyr rhyngwladol ac UE yn dod â hwy i Gymru**, sy'n cyfrannu gwerth 0.5% at economi Cymru ar hyn o bryd, ac roedd yn dangos mor bwysig yw'r myfyrwyr tramor i'r gwaith o ryngwladoli prifysgolion Cymru yn gyffredinol.
- Gwnaethom ailadrodd ein safbwynt ar **hyd cyrsiau**, a gofyn i brifysgolion gymryd camau i sicrhau na fydd hyd cyfartalog cyrsiau gradd

gyntaf yn cynyddu, o ystyried eu heffaith bosibl ar gyllideb cyllid myfyrwyr Llywodraeth Cymru.

- Roedd canlyniadau'r **Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol** yn dangos, at ei gilydd, bod 82% o ymatebwyr Cymru yn fodlon ar eu cwrs. Ar ôl pum mlynedd o dyfiant, er bod y canlyniad cyffredinol wedi gostwng am y tro cyntaf 1 pwynt canran, roedd y canlyniadau hefyd yn dangos canlyniadau ychydig yn well i rai meysydd, yn cynnwys asesu ac adborth a chymorth academaidd.
- Roedd adolygiad o'r Cyd-Bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) yn cydnabod ei lwyddiant dros nifer o flynyddoedd, y cyfraniad a wnaed gan ei wasanaethau a rennir i'r sectorau AU ac AB, a'i enw da rhyngwladol. Roedd yn nodi bod y galw cynyddol ar JISC, yn enwedig ar adeg o gyfyngiadau o ran adnoddau, yn dangos bod angen i'w ffordd o weithredu newid er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae JISC yn ysbrydoli colegau a phrifysgolion y DU yn y **defnydd arloesol a wneir o dechnolegau digidol**, gan helpu i gynnal safle'r DU fel arweinydd byd-eang ym maes addysg.
- Cynhaliwyd proses **Adolygiad Sefydliadol: Cymru** yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) i ddau sefydliad. Gwnaethom weithio'n agos gyda'r ASA mewn perthynas â chylch gwaith y Gweinidog dros Addysg i CCAUC ar Brifysgol Cymru.
- Gwnaethom gadarnhau y byddai £1.02 filiwn ar gael i gefnogi **strategaethau dysgu ac addysgu** sefydliadau.

Cyflenwi cyfrifoldebau yn 2010–11, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
<p>Darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad cynnydd ar yr Adolygiad o Bartneriaethau Cydweithredol Prifysgol Cymru erbyn mis Mai 2010. • Adroddiad ar Adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) o Brifysgol Cymru erbyn mis Ionawr 2011. 	<p>✓ Cwblhawyd.</p> <p>Darparwyd yr adroddiad ar gynnydd ar amser. Cadwyd yr adroddiad o adolygiad sefydliadol yr ASA i'w gyhoeddi tan fis Mehefin 2011, tra'n aros am ganlyniad gwaith arall gan yr ASA ar weithgareddau tramor y Brifysgol.</p>

Perfformiad yn erbyn Mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

03	Pwrpas	Mesur 'parhau â'r ymdrechion i ddarparu profiad rhagorol i'r myfyrwyr' a sicrhau bod 'llais myfyrwyr yn cryfhau addysg uwch'.
	Mesurwyd gan	Bydd y sgôr gyfartalog dreigl dair blynedd ar gyfer Cymru yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol'* yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn hafal i, neu'n fwy na'r sgôr gymharol ar gyfer y DU . *Mae 'sgôr' yn golygu canran y myfyrwyr a gytunodd gyda 'Yn gyffredinol, rwy'n fodlon gyda safon fy nghwrs'.
	Gwaelodlin	Cynnydd
	2007 i 2009 Sgôr gyfartalog dreigl 3 blynedd	2009 i 2011 Sgôr gyfartalog dreigl 3 blynedd
	Sefydliadau AU Cymru 83.3%	Sefydliadau AU Cymru 82.7%
	Sefydliadau AU y DU 81.7%	Sefydliadau AU y DU 82.7%

04	Pwrpas	Mesur 'astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth ehangach o raglenni a lleoliadau yng Nghymru'.
	Mesurwyd gan	Bydd nifer y myfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi o 4,586 yn 2008/09 i 5,509 yn 2012/13.*
	Gwaelodlin	Cynnydd
	2008/09	2009/10
	4,586	4,612

05	Pwrpas	Mesur rhyngwladoli addysg uwch yng Nghymru, drwy barhau i weld Cymru'n gwneud yn well na'r symudiad DU-eang mewn recriwtio myfyrwyr tramor.
	Mesurwyd gan	Bydd y twf canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cyfartalog ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr).
	Gwaelodlin	Cynnydd
	2007/08 i 2008/09 twf %	2008/09 i 2009/10 twf %
	Sefydliadau AU Cymru 15.1%	Sefydliadau AU Cymru 26.7%
	Sefydliadau AU y DU (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr) 10.4%	Sefydliadau AU y DU (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr) 11.9%

*Mae'r gwaelodlin a'r targed wedi cael eu diwygio i adlewyrchu cywiriad data 2008/09.

Sgiliau

Sicrhau bod pawb sy'n graddio yn barod am fyd gwaith a'u rôl fel dinasyddion

Mae prifysgolion Cymru yn cynhyrchu mwy na 30,000 o raddedigion bob blwyddyn.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod pawb sy'n graddio yn barod am fyd gwaith a'u rôl fel dinasyddion.

Mae ein nodau'n cynnwys:

- cadw sgiliau graddedigion yn economi Cymru a gwella cyfraniad sgiliau graddedigion Cymru yn fwy eang, gan gynnwys defnyddio rhaglenni hyblyg a dysgu seiliedig ar waith
- cynyddu sgiliau lefel uwch a sgiliau entrepreneuraidd yng ngweithlu Cymru
- annog arweiniad gyrfaoedd a gwella cyflogadwyedd
- cefnogi sefydliadau i ddarparu athrawon newydd gymhwyso o'r safon uchaf.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- i gyfrannu at ddatblygiad economaidd a chyflawni cyfiawnder cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys ym meysydd sgiliau a chyflogadwyedd;
- sy'n arwain mentrau cyflogadwyedd yn y DU gyda chynlluniau megis GO Wales. Mae GO Wales wedi cryfhau'r cysylltiadau â chyflogwyr o fewn prifysgolion. Mae'r rhaglen hon a ariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod â myfyrwyr, graddedigion a busnesau ynghyd drwy gefnogi lleoliadau gwaith a chyfleoedd hyfforddiant;
- i annog canolfannau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) i fynd i'r afael â materion allweddol mewn perthynas â HCA a blaenoriaethau perthnasol a osodir gan

Lywodraeth Cymru, Estyn a CCAUC. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys: hyfforddi athrawon ar gyfer pynciau blaenoriaethol uwchradd ac athrawon cyfrwng Cymraeg; partneriaethau gydag ysgolion; cynnal a gwella safon; a datblygu'r cwricwlwm; ac

- annog gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) o fewn AU, a chynnal a gwella'r gwaith o gyflenwi ieithoedd tramor modern, pwnc sydd o bwys ehangach i Gymru.

Gweithgareddau yn 2010-11

- Gwnaethom wahodd prifysgolion a phartneriaid yng Nghymru i gyflwyno **strategaethau rhanbarthol**, i nodi sut y gallai sefydliadau weithio gyda'i gilydd orau i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol a lleihau dyblygu diangen. Ddiwedd mis Mawrth 2011, cadarnhaodd CCAUC bod nifer o feysydd pwnc wedi cael eu nodi ar gyfer dyraniadau cyllid rhanbarthol CCAUC yn y flwyddyn academiaidd ganlynol.
- Wrth gyllido'r cyrsiau newydd hyn, roeddem yn ofalus i ddiffinio ein polisi ar **Graddau Sylfaen** yn gyntaf, mewn ymateb i *Er Mwyn ein Dyfodol a Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth a Chynllun Gweithredu*. Yn eu hanfod, mae'r cymwysterau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod addysg uwch yn fwy fforddiadwy i fwy o bobl, hybu cydlyniant cymdeithasol, ac ymestyn y llwybrau i ddysgu gydol oes.
- Rydym yn parhau i gydariannu Rhaglen STEM Addysg Uwch, sef menter i hyrwyddo **gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg** (STEM) yng Nghymru a Lloegr, sydd o dan arweiniad Prifysgol Abertawe yng Nghymru. Mae Prifysgol Abertawe yn cydweithio ar weithgareddau gyda deg sefydliad arall yng Nghymru ac mae'n ymgymryd â chydweithredu trawsffiniol gyda'r arweinwyr rhanbarthol eraill.

Nod y rhaglen yw galluogi arfer gorau i gael ei drosglwyddo a chael ei ddefnyddio'n ehangach ar draws sector addysg uwch STEM, ac annog arloesedd.

- Gwnaethom annog cynnydd mewn lleoedd prifysgolion ym **mhynciau'r gwyddorau** o flwyddyn academaidd 2010/11 er mwyn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio economaidd. Yn unol â hynny, gwnaethom wahodd prifysgolion i newid rhai o'u lleoedd presennol i fyfyrwyr yn lleoedd STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg), yn dilyn galwadau taer gan gyflogwr am fwy o raddedigion yn y pynciau hyn.
- Gwnaethom ariannu CILT Cymru i gyflenwi'r 'rhanbarth' Cymraeg o fewn menter ehangach Lloegr 'Llwybrau i leithoedd', gan alluogi grwpiau

o'n prifysgolion i weithio'n agos gydag ysgolion a cholegau i ennyn brwdfrydedd ac yn annog pobl i **astudio ieithoedd**.

- Agorodd y Prif Weinidog Ganolfan newydd Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru ym mis Ionawr 2011. Gwnaethom ddyrannu £1.3 miliwn o gyllid strategaeth **hyfforddiant cychwynol i athrawon** i gefnogi darparwyr, gan gynnwys y Canolfannau Addysg Athrawon, wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant athrawon.
- Rhoddwyd tua £6 miliwn o gymorth ychwanegol i **fyfyrwyr rhan amser**, gyda'r nod o gynnal a chryfhau cyrsiau rhan amser sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ehangu mynediad i addysg uwch ac ymestyn cysylltiadau â chyflogwyr.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2010-11, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
Annog y gwaith o ddatblygu Graddau Sylfaen gyda sectorau ynni adnewyddadwy sy'n dod i'r amlwg, fel rhan o ddatblygiadau polisi Gradd Sylfaen newydd CCAUC.	✓ Cwblhawyd. Cwmpaswyd o dan y meini prawf a bennwyd ar gyfer cyllido cynigion y Radd Sylfaen.

Perfformiad yn erbyn Mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

06	Pwrpas	Mesur 'cyflogadwyedd fel un o ganlyniadau allweddol y profiad AU'.										
	Mesurwyd gan	Bydd y gyfran o raddedigion sy'n gadael addysg uwch gyda graddau cyntaf o gyrsiau amser llawn ac sydd mewn gwaith, yn astudio neu'r ddau chwe mis ar ôl gadael, yn hafal i, neu'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU erbyn 2012/13.										
		<table border="1"> <thead> <tr> <th>Gwaelodlin</th> <th>Cynnydd</th> </tr> <tr> <th>2008/09</th> <th>2009/10</th> </tr> <tr> <th>% a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis</th> <th>% a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Sefydliadau AU Cymru 91.2%</td> <td>Sefydliadau AU Cymru 91.9%</td> </tr> <tr> <td>Sefydliadau AU y DU 89.9%</td> <td>Sefydliadau AU y DU 90.4%</td> </tr> </tbody> </table>	Gwaelodlin	Cynnydd	2008/09	2009/10	% a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis	% a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis	Sefydliadau AU Cymru 91.2%	Sefydliadau AU Cymru 91.9%	Sefydliadau AU y DU 89.9%	Sefydliadau AU y DU 90.4%
Gwaelodlin	Cynnydd											
2008/09	2009/10											
% a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis	% a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis											
Sefydliadau AU Cymru 91.2%	Sefydliadau AU Cymru 91.9%											
Sefydliadau AU y DU 89.9%	Sefydliadau AU y DU 90.4%											

07	Pwrpas	Mesur i ba raddau mae mwy o bobl yng Nghymru, gan gynnwys ym Mlaenau'r Cymoedd, yn cael y profiad o addysg uwch ac yn 'meddu ar sgiliau lefel uwch'.						
	Mesurwyd gan	Erbyn 2012/13 bydd cynnydd o 8% i'r cyfartaledd cenedlaethol presennol yng nghyfradd cyfranogiad absoliwt myfyrwyr o bum awdurdod unedol Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru (o 2.5% i 2.7%).						
		<table border="1"> <thead> <tr> <th>Gwaelodlin</th> <th>Cynnydd</th> </tr> <tr> <th>2007/08</th> <th>2008/09</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>2.5%</td> <td>2.5%</td> </tr> </tbody> </table>	Gwaelodlin	Cynnydd	2007/08	2008/09	2.5%	2.5%
Gwaelodlin	Cynnydd							
2007/08	2008/09							
2.5%	2.5%							

08	Pwrpas	Mesur i ba raddau y 'cynigir cyfleoedd dysgu rhan amser gwell'.						
	Mesurwyd gan	Bydd cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn codi o 54,714 yn 2008/09 i 59,000 yn 2012/13.						
		<table border="1"> <thead> <tr> <th>Gwaelodlin</th> <th>Cynnydd</th> </tr> <tr> <th>2008/09</th> <th>2009/10</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>54,714</td> <td>50,243²</td> </tr> </tbody> </table>	Gwaelodlin	Cynnydd	2008/09	2009/10	54,714	50,243 ²
Gwaelodlin	Cynnydd							
2008/09	2009/10							
54,714	50,243 ²							

2. Ar hyn o bryd rydym yn priodoli hyn i gyfuniad o ostyngiad posibl mewn galw economaidd, ailstrwythuro cyrsiau am resymau academaidd a chynaliadwyedd ariannol amrywiol, a thynnu'n ôl o fasnachfreintiau. Byddem yn disgwyl rhywfaint o welliant yn y dyfodol mewn ymateb i ddarpariaeth ran-amser newydd sy'n dod i'r amlwg mewn rhai sefydliadau.

Trosglwyddo Gwybodaeth

Sicrhau cydberthnasau mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus/preifat, cymunedau lleol ac asiantaethau eraill

Mae prifysgolion yn cyfrannu dros £1 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru, yn denu buddsoddiad o'r tu allan ac yn cynhyrchu enillion allforio, ac yn un o brif gyflogwyr Cymru.

Mae'n hanfodol bod y wybodaeth a ddatblygir yn y sefydliadau addysg uwch yn cael ei gwneud yn hygyrch fel y gall yr economi a'r gymdeithas ei defnyddio'n fwy eang, sy'n cynnwys yr angen i sefydliadau ddatblygu eu cysylltiadau â chyflogwyr, a'u rolau diwylliannol a dinesig.

Mae ein nodau'n cynnwys:

- bod o les i'r economi a chymdeithas - creu cyfoeth a gwybodaeth - drwy sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol rhwng sefydliadau AU a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- i gyfrannu at ddatblygiad economaidd a chyflawni cyfiawnder cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol y DU a rhyngwladol. Ceir gweithgareddau mewn meysydd megis sgiliau a chyflogadwyedd, cynaliadwyedd, menter, arloesedd a buddsoddi o'r tu allan;
- sy'n derbyn cyllid i weithredu strategaethau Arloesedd ac Ymwneud er mwyn hybu lles economaidd a chymdeithasol Cymru a thu hwnt;
- i gynyddu'r gwaith o fasnacheiddio gwaith ymchwil; ac
- i ddatblygu eu rolau diwylliannol a dinesig ymhellach.

Gweithgareddau yn 2010-11

- Rydym wedi dyrannu dros £5.98 miliwn o **gyllid Arloesedd ac Ymwneud** i sefydliadau addysg uwch i gefnogi strategaethau Arloesedd ac Ymwneud unigol a chydweithredol.
- Gwnaethom nodi, yn 2008/09 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael), bod prifysgolion Cymru, sy'n ffurfio tua 5% o addysg uwch y DU, wedi cynhyrchu 10% o'r holl fusnesau newydd a ddechreuwyd gan raddedigion y DU a thros 12% o drosiant (tuag £16.5 miliwn) yr holl gwmnïau gweithredol a ddechreuwyd gan raddedigion y DU. Roedd ffigurau diweddaraf ar draws y DU (arolwg HE-BCI) ar sut mae **sefydliadau AU yn gweithio gyda busnes ac yn cynhyrchu busnes** yn dangos bod prifysgolion yng Nghymru yn helpu busnesau a'r economi i wynebu amseroedd ansicr a gosod sylfeini cadarn ar gyfer adferiad yn y dyfodol.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2010–11, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
Cwblhau cynigion ar gyfer cylch newydd o gyllid Arloesi ac Ymwneud, gan ystyried datblygiadau yn nimensiwn rhanbarthol addysg uwch yng Nghymru, lle y bo'n briodol, a gwahodd strategaethau newydd erbyn mis Ebrill 2011.	✓ Cwblhawyd. Fodd bynnag, o ystyried bod yr ail gylch o'r gyfundrefn ariannu flaenorol wedi cael ei ymestyn, gofynnwyd am strategaethau newydd erbyn diwedd Gorffennaf 2011.
Llunio cynigion i gefnogi mwy o gydweithio rhwng prifysgolion a chyflogwyr o ran cynhyrchu a mynd ar drywydd cynlluniau ymchwil ar y cyd, yn benodol, ymelwa ar ymchwil newydd a chyfredol a fydd yn sicrhau budd i anghenion cyflogwyr a'r economi.	✓ Cwblhawyd. Datblygwyd o dan ddatblygu cylch newydd o Gyllid Arloesi ac Ymgysylltu.

Perfformiad yn erbyn Mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

09

Pwrpas	Dangos 'trosglwyddo gwybodaeth berthnasol a manteisio ar eiddo deallusol mewn ffyrdd a fydd yn gallu dylanwadu ar drawsnewidiad economaidd Cymru'.	
Mesurwyd gan	Bydd nifer y cwmnïau deilliadol gweithredol sydd wedi goroesi am dair blynedd o leiaf yn cynyddu 10%, o 252 yn 2008/09 i 277 yn 2012/13.	
	Gwaelodlin	Cynnydd
	2008/09	2009/10
	252	301

Ymchwil

Sicrhau gwell perfformiad ymchwil i fod yn sail i'r economi wybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol

Mae ymchwil yn creu gwybodaeth, a phan gymhwysir y wybodaeth hon, gall fynd i'r afael â heriau allweddol a wynebwr gan gymdeithas, darparu swyddi newydd o safon a chreu cyfoeth.

Rydym yn cyfeirio cyllid er mwyn helpu i gryfhau ansawdd a maint y sylfaen ymchwil yng Nghymru, ac i gynnal ymchwil rhagorol cynaliadwy yng Nghymru sy'n cael ei gydnabod ar hyd a lled y byd. Rydym hefyd yn cyllido sefydliadau addysg uwch er mwyn iddynt barhau i ffurfio partneriaethau cydweithiol newydd sy'n cryfhau eu nodau ymchwil unigol, tra'n cydnabod rôl gwaith ymchwil i gefnogi cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio diwylliannol a chymdeithasol.

Mae ein nodau'n cynnwys:

- cryfhau ansawdd, graddfa ac effaith sylfaen ymchwil sy'n ffynnu yng Nghymru ac sy'n gystadleuol yn rhyngwladol
- creu grwpiau ymchwil cynaliadwy ac effeithiol a chydweithio yng Nghymru, drwy sicrhau eu bod o faint ac ystod disgyblu digonol, yn enwedig mewn meysydd o flaenoriaeth a chryfder cenedlaethol
- bod y sector addysg uwch yng Nghymru yn sicrhau mwy o incwm ymchwil o ffynonellau ar wahân i CCAUC, yn enwedig drwy grantiau Cyngor Ymchwil a thrwy fasnacheiddio'u cynnyrch ymchwil
- cefnogi datblygiad economaidd yng Nghymru drwy ddenu buddsoddwyr newydd o'r tu allan ar sail perthnasedd masnachol arbenigedd ymchwil Cymru
- cynyddu maint y gefnogaeth sydd ar gael i'r gymuned ôl-raddedig yng Nghymru.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil sy'n hybu

gwybodaeth ac arfer a, lle y bo'n briodol, yn darparu sylfaen ar gyfer cymhwyso a throsglwyddo gwybodaeth;

- sy'n derbyn cyllid CCAUC ar gyfer ymchwil drwy'r ffrwd gyllido QR (Ymchwil o Ansawdd), sy'n gwobrwyo ac yn atgyfnerthu ymchwil rhagorol ar sail canlyniadau'r Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY);
- sy'n hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr drwy ddarparu rhaglenni gradd ymchwil ôl-radd, sy'n derbyn cymorth drwy ffrwd gyllido ymchwil ôl-radd (YOR) CCAUC; ac
- i weithio ar ddatblygiadau sy'n cryfhau gallu ymchwil drwy gydweithio.

Gweithgareddau yn 2010-11

- Buom yn gweithio gyda chydweithwyr yng nghyffwrdd cyllido eraill y DU i ddatblygu'r **Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil**, sef y system newydd i asesu ansawdd gwaith ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU. Cyhoeddwyd y fframwaith eang yn dilyn ymarferion peilot ar draws y DU a oedd yn profi ac yn datblygu'r trefniadau ar gyfer asesu effaith.
- Gwnaethom adolygu a diwygio ein **dull cyllido ymchwil** (QR - Ymchwil o Ansawdd) i ffocysu cymorth ar ymchwil rhagorol cynaliadwy. O 2011/12 ymlaen, ni fyddem yn cynnwys ymchwil 2* yn y fformiwla gyllido QR, a byddem yn cyflwyno trothwy ansawdd a chyfaint cyfunol. Ochr yn ochr â'n Cronfa Arloesedd ac Ymwneud, cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen arbenigedd Academiaidd ar gyfer Busnes (A4B) er mwyn helpu i fasnacheiddio ffrwyth gwaith ymchwil, gan gynnwys drwy gyfrwng ymchwil rhwng sefydliadau AU a busnesau yng Nghymru.
- Gwnaethom sefydlu **Is-grŵp Ymchwil** o'n Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud ag

ymchwil o ansawdd ac incwm allanol - Y Cyngor Ymchwil. Gwnaeth yr Is-grŵp argymhellion ar gyfer gwelliannau y gellir eu gwneud drwy weithredu cydgysylltiedig gan y sector AU, CCAUC a Llywodraeth Cymru.

- Gwnaethom gytuno i gyfrannu £5 miliwn i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu **Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru** (HPC Cymru), mewn partneriaeth â nifer o gyllidwyr eraill. Bydd HPC Cymru yn adeiladu cyfleuster cyfrifiadura perfformiad uchel o'r radd flaenaf ar draws y prifysgolion yng Nghymru.
- Gwnaethom lofnodi'r **Concordat ar gyfer Denu'r Cyhoedd i Ymwneud ag Ymchwil**, ochr yn ochr

â chyrrff cyllido addysg uwch eraill y DU, Cyngorau Ymchwil y DU a chyllidwyr ymchwil eraill. Mae'r Concordat yn cynnwys cyfres o egwyddorion i annog ymwneud y cyhoedd er mwyn atgyfnerthu effaith gymdeithasol ac economaidd ymchwil.

- Gwnaethom gyfrannu £1.5 miliwn i gydariannu **Canolfan Hyfforddi Ddoethurol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol yng Nghymru** Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y bydd consortiwm o brifysgolion Cymru yn ei chynnal am bum mlynedd. Bydd y dyfarniad £10 miliwn yn ariannu 33 o ysgoloriaethau ymchwil newydd y flwyddyn.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2010-11, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
<p>Gweithredu i wella perfformiad ymchwil addysg uwch Cymru, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi'r cymhelliant i gynyddu cyfran Cymru o gyllid ymchwil y DU er mwyn ffocysu'n fwy ar flaenoriaethau ymchwil cenedlaethol. • Annog ysgoloriaeth gydweithredol ar draws arbenigeddau pwnc. • Hyrwyddo cydweithredu traws-sefydliadol, yn enwedig ar draws prifysgolion ymchwil-ddwys. 	<p>✓ Cwblhawyd.</p> <p>Aed i'r afael â'r materion hyn gan is-grŵp ymchwil Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud Cyngor CCAUC (RIEC) a'u cyflwyno mewn adroddiad i'r Cyngor ym mis Mawrth 2011.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaethau am ei gasgliadau a'i argymhellion gyda Llywodraeth Cymru, yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet ar 18 Mawrth, gyda gwaith pellach ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2011.</p>

Perfformiad yn erbyn Mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

10

Pwrpas	Annog gwaith ymchwil mwy effeithiol trwy ffocysu buddsoddiad ar feysydd o gryfder.								
Mesurwyd gan	Bydd y twf canrannol blynyddol mewn incwm o'r Cyngorau Ymchwil yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys y 'triongl euraid', sef Rhydychen, Caergrawnt a Llundain). [Yn 2008/09, roedd incwm AU Cymru o'r Cyngorau Ymchwil yn cyfrif am 4.8% o gyfanswm y DU.]								
<table border="1" style="width: 100%;"> <thead> <tr> <th style="width: 50%;">Gwaelodlin</th> <th style="width: 50%;">Cynnydd</th> </tr> <tr> <th style="text-align: center;">2007/08 i 2008/09</th> <th style="text-align: center;">2008/09 i 2009/10</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td style="text-align: center;">% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU Cymru 17.4%</td> <td style="text-align: center;">% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU Cymru 3.0%</td> </tr> <tr> <td style="text-align: center;">% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU y DU 13.9%</td> <td style="text-align: center;">% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU y DU 3.1%</td> </tr> </tbody> </table>		Gwaelodlin	Cynnydd	2007/08 i 2008/09	2008/09 i 2009/10	% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU Cymru 17.4%	% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU Cymru 3.0%	% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU y DU 13.9%	% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU y DU 3.1%
Gwaelodlin	Cynnydd								
2007/08 i 2008/09	2008/09 i 2009/10								
% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU Cymru 17.4%	% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU Cymru 3.0%								
% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU y DU 13.9%	% twf incwm ar gyfer sefydliadau AU y DU 3.1%								

THEMÂU GALLUOGI

Ailgyflunio a chydweithio

Cynhyrchu cyfundrefn addysg uwch ailgyfluniedig gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn rhanbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch

Rydym wedi ymrwmo i gyflawni blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru o gyfundrefn addysg uwch ailgyfluniedig (gyda darparwyr cryf) sydd, drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn rhanbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch.

Mae AU yng Nghymru yn rhan o farchnad ehangach i fyfyrwyr a staff, yn y DU ac yn rhyngwladol. Rydym am weld sector addysg uwch cryfach gyda darparwyr yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd, gyda diwylliant o gydweithio wedi'i wreiddio'n ddwfn sy'n adeiladu mas critigol, rhannu gwasanaethau a chynhyrchu mwy o incwm.

Ein nodau yw:

- cyfundrefn addysg uwch amrywiol sy'n gystadleuol yn rhyngwladol ac sy'n gwasanaethau anghenion Cymru
- diwylliant o gydweithio rhanbarthol wedi'i wreiddio'n ddwfn a gostyngiad yn y dyblygu diangen
- ymagwedd fwy strategol tuag at ddosbarthu ein cyllid i sefydliadau AU
- nifer llai o brifysgolion, mwy o faint a mwy gwydn. Mae hyn yn golygu sector sy'n cynnwys chwe sefydliad ar y mwyaf (heb gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru), sy'n adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol, cenedlaethol, ehangu mynediad ac ymchwil mewn ffyrdd gwahanol
- ni ddylai mwy na dau sefydliad AU gael incwm sy'n is na chanolrif y DU, ac ni ddylai'r un ohonynt fod yn ne-ddwyrain Cymru.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- i ddyfarnu a manteisio i'r eithaf ar gyllid drwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio Llywodraeth Cymru, sydd wedi cefnogi cynigion o bwys gan sefydliadau addysg uwch i gyfuno neu gydweithio mewn clystyrau neu rwydweithiau rhagoriaeth ym meysydd addysgu, ymchwil a gweithgareddau arloesedd ac ymwneud;
- i gefnogi amrywiaeth o gydweithrediadau a chynlluniau strategol ledled y DU drwy ein Cronfa Datblygu Strategol; ac
- i adolygu strategaethau ystad, lle mae sefydliadau AU yn ystyried anghenion eu hystadau unigol, gan gynnwys gofynion llety myfyrwyr a materion ariannol a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Gweithgareddau yn 2010-11

- Gwnaethom roi disgrifiad manylach ar y **ffordd rydym yn rhagweld y sector addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol** er mwyn sicrhau cyfundrefn AU Gymreig gynaliadwy, gan gyhoeddi y dylai'r sector addysg uwch yng Nghymru fod wedi symud i strwythur o chwe sefydliad ar y mwyaf (heb gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru) erbyn mis Mawrth 2013.
- Gwnaethom wahodd prifysgolion a phartneriaid yng Nghymru i gyflwyno strategaethau rhanbarthol, i nodi sut y gallai sefydliadau weithio gyda'i gilydd orau i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol a lleihau dyblygu diangen. Bu sefydliadau AU a cholegau addysg bellach, darparwyr addysg ôl-16,

awdurdodau lleol, Cyngorau Sgiliau Sector, cyflogwyr, a grwpiau cynrychioliadol yn cydweithio'n rhanbarthol er mwyn helpu dysgwyr i symud ymlaen o'r ysgol, i faes addysg bellach ac addysg uwch neu ddysgu seiliedig ar waith, a mynd i'r afael â phrinder sgiliau. Ddiwedd mis

Mawrth 2011 gwnaethom gadarnhau bod nifer o feysydd pwnc wedi cael eu nodi ar gyfer dyraniadau cyllid rhanbarthol yn y flwyddyn academaidd ganlynol.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2010–11, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
Cysylltu â'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru i ddatblygu strategaethau rhanbarthol ar gyfer cynllunio a darparu AU, erbyn mis Tachwedd 2010. Byddai'r strategaethau hyn yn: <ul style="list-style-type: none"> • gysylltiedig â blaenoriaethau cyllido • gorchwyl CCAUC gan Lywodraeth Cymru, a strategaeth <i>Er Mwyn ein Dyfodol</i> Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhoi arweiniad clir i sefydliadau i gyd-fynd â'u dulliau o gyflenwi dysgu i fodloni'r blaenoriaethau cenedlaethol. 	✓ Cwblhawyd. Cyflwynwyd tair strategaeth ranbarthol i CCAUC erbyn diwedd mis Tachwedd 2010.
Darparu adroddiad ar y fframwaith rhanbarthol i Lywodraeth Cymru.	✓ Cwblhawyd. Cyflwynwyd yr adroddiad ym mis Mai 2010.

Perfformiad yn erbyn Mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

11

Pwrpas	Pwrpas: Hybu ailgyflunio pellach yn y sector addysg uwch, gan gynnwys 'cyfuno sefydliadau a chydweithio rhwng sefydliadau lle y bydd hyn yn cynyddu cryfder, gallu ac argaeledd addysg uwch o ansawdd uchel'.	
Mesurwyd gan	Bydd gan o leiaf 75% o sefydliadau addysg uwch Cymru incwm blynyddol sy'n fwy na'r canolrif ar gyfer y DU (36% yn 2008/09), ac ni fydd unrhyw sefydliad yn y chwarter isaf erbyn 2012/13 (4 yn 2008/09).	
	Gwaelodlin	Cynnydd
	2008/09	2009/10
	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 36% (4 sefydliad o blith 11)	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 45% (5 sefydliad o blith 11)
	Yn y chwarter isaf 36% (4 sefydliad o blith 11)	Yn y chwarter isaf 36% (4 sefydliad o blith 11)

Llywodraethu

Sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd llywodraethu a chynaliadwyedd tymor hir y gyfundrefn addysg uwch

Mae cyrff llywodraethol prifysgolion yn hanfodol wrth bennu eu cwrs a sicrhau bod timau gweithredol yn atebol am eu perfformiad.

Rydym wedi ymrwymo i annog cyrff llywodraethol i sicrhau gwelliant parhaus o ran ansawdd y llywodraethu a chynaliadwyedd hir dymor y gyfundrefn addysg uwch, a fyddai'n cynnwys sefydlu addysg uwch wedi'i hailstrwythuro sy'n diwallu anghenion Cymru orau.

Mae ein nodau'n cynnwys:

- archwilio sut i ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth ymhellach o fewn y sector addysg uwch
- hybu rôl darparwyr AU fel 'dinasyddion corfforaethol'.

Rydym yn:

- cymryd rhan mewn proses 'ymgysylltiad strategol' gyda sefydliadau addysg uwch, sy'n cynnwys rhoi adborth ar eu cynlluniau strategol. Rydym hefyd yn monitro'u cynnydd ac yn gweithio gyda hwy i wella rhai meysydd perfformiad;
- asesu adroddiadau sefydliadau AU ar gynnydd yn erbyn strategaethau a mentrau CCAUC;
- adolygu rhagolygon ariannol a datganiadau ariannol archwiliedig pum mlynedd sefydliadau, er mwyn asesu eu cynaliadwyedd;
- sicrhau bod ein Cyngor yn ymweld â phob sefydliad addysg uwch yng Nghymru o leiaf unwaith bob tair blynedd er mwyn ymgysylltu'n well â sefydliadau unigol, gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth ohonynt a gwella ein dulliau o roi adborth i sefydliadau;
- helpu sefydliadau i lynu at ganllawiau a deddfwriaeth allanol mewn meysydd megis cydraddoldeb, a chynaliadwyedd;

- monitro cynnydd a pherfformiad caffael sefydliadau a'r sector, sy'n cynnwys edrych ar arbedion a wnaed, y defnydd o dechnoleg i gefnogi caffael a chynnydd o ran caffael cynaliadwy;
- parhau i gefnogi gwaith llywodraethu a rheolaeth y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch (LFHE) a Phwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (CUC), ar raddfa DU a Chymreig, ac rydym yn cefnogi eraill sy'n ymwneud â datblygu llywodraethu a rheolaeth;
- monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth sefydliadau AU yng Nghymru a rhoi cyngor ac arweiniad yn y maes hwn; a
- gweithio gydag Uned Her Cydraddoldeb (ECU) y DU i fonitro perfformiad sefydliadau addysg uwch o ran cwrdd â'u rhwymedigaethau statudol o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

Gweithgareddau yn 2010-11

- Gwnaethom **gynnal ymgynghoriad sylweddol ar sut i ddatblygu ein dull cyllido** er mwyn ei alinio'n well â'r prif themâu yn ein Strategaeth Gorfforaethol o flwyddyn academiaidd 2011/12. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar sut i reoli nifer yr israddedigion amser-llawn mewn sefydliadau er mwyn rheoli'r galw ar gyllidebau myfyrwyr Llywodraeth Cymru. Yn dilyn yr adolygiad hwn rhoddwyd canllawiau i brifysgolion ym mis Medi 2010.
- Gwnaethom groesawu'r **adolygiad annibynnol o lywodraethu addysg uwch** yng Nghymru, a'r adroddiad dilynol, *Llwyddiant ac atebolrwydd*. Roedd yr adroddiad yn rhoi ystyriaeth i lywodraethu cenedlaethol a sefydliadol yn y sector addysg uwch yng Nghymru, ac yn edrych ar rôl a swyddogaeth genedlaethol Prifysgol Cymru. Ymhlith yr argymhellion eraill, roedd yn awgrymu rôl fwy i unrhyw gorff cyllido AU yng Nghymru yn y dyfodol.

- Cafodd prifysgolion Cymru bron i £2 filiwn mewn rhoddion arian parod oddi wrth rhoddwyr, a oedd yn gynydd o 36% ar y flwyddyn flaenorol. Dyma ail flwyddyn **cynllun cyllid cyfatebol** CCAUC gwerth £10 miliwn **ar gyfer rhoi gwirfoddol**, a oedd yn gwarantu cyllid ychwanegol - cyfatebol - gan CCAUC ar gyfer rhoddion a wneir i sefydliadau addysg uwch gan gyrff ac unigolion gan gynnwys cynfyfyrwyr.
- Gwnaethom gyhoeddi manylion am drefniadau diwygiedig CCAUC ar gyfer cynnal **ymweliadau sicrwydd sefydliadol cylchol** i asesu

effeithiolrwydd rheoli sefydliadau addysg uwch, rheoli risg a threfniadau rheoli mewnol.

- Gwnaethom gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am yr angen i gael **lefel briodol o gyllido** ar gyfer y sector AU yng Nghymru.
- Gwnaethom sicrhau **effeithlonrwydd caffael** gwerth bron i £19 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/10, a oedd yn gynydd o £6 miliwn ar y flwyddyn flaenorol, ochr yn ochr â gwelliannau'r sector o ran caffael cynaliadwy.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2010–11, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
Cyflwyno Cynllun Gweithredol CCAUC, a Strategaeth Gorfforaethol / <i>Chynllun Er Mwyn ein Dyfodol</i> .	✓ Cwblhawyd.
Dechrau adolygiad o ddulliau cyllido CCAUC: <ul style="list-style-type: none"> • ailstrwythuro ffrydiau cyllid cyfredol wrth symud i Gronfa Gweithredu Strategol • asesu gwariant arfaethedig i alinio gyda nodau <i>Er Mwyn ein Dyfodol</i> • gweithredu'r newidiadau ar gyfer cylch cyllido 2010/11. 	✓ Cwblhawyd. Cynhaliwyd adolygiad ac ymgynghoriad o'r ffrydiau cyllido. Cyhoeddwyd cynigion cychwynnol ar gyfer ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2010, a chyhoeddwyd y newidiadau terfynol y cytunwyd arnynt gan Gyngor CCAUC ym mis Chwefror 2011.
I: <ul style="list-style-type: none"> • ymgynghori ar fesurau i gap i bennu terfyn uchaf ar gyfer nifer y myfyrwyr a ariennir sy'n cael eu recriwtio o 2011/12, a chyhoeddi'r mesurau hynny. • adrodd ar gynydd a chamau gweithredu a gymerwyd dros dro ar gyfer 2010/11 i'r Gweinidog Addysg erbyn mis Mai 2010. 	✓ Cwblhawyd. Yn dilyn ymgynghoriad â'r sector addysg uwch, cyhoeddwyd arweiniad ym mis Medi 2010.
Sicrhau datblygiad cynaliadwy o fewn CCAUC: <ul style="list-style-type: none"> • drwy sicrhau y gwneir penderfyniadau o fewn fframwaith llunio polisiâu Cyfarwyddiaeth Datblygu Strategol CCAUC • drwy sicrhau bod CCAUC yn cefnogi lles tymor hir pobl Cymru drwy ei ddulliau cyllido a'i ddylanwad dros y sector AU, a bod hyn yn cael ei ddangos wrth adrodd ar berfformiad. 	✓ Cwblhawyd. Ystyriwyd bapur yn nodi cynigion er mwyn galluogi CCAUC i ymgorffori cynaliadwyedd ymhellach o fewn y prosesau gwneud penderfyniadau a chyllido gan Gyngor CCAUC ym mis Gorffennaf 2011.

Tasg	Canlyniad
Parhau i annog sefydliadau Addysg Uwch i leihau eu heffeithiau amgylcheddol ac adrodd ar faterion amgylcheddol drwy eu Systemau Rheoli Amgylcheddol.	✓ Cwblhawyd. Datblygodd CCAUC gynigion a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Hydref 2010. Diwygiwyd y rhain i adlewyrchu gwariant cyllid cyfalaf.
Parhau i weithredu strategaeth ymgysylltu strategol CCAUC gyda sefydliadau, gan gynnwys adolygu agwedd CCAUC ar gynllunio sefydliadol i sicrhau bod prifysgolion yn cyfrannu ar y cyd ac yn unigol i gyflawni <i>Er Mwyn ein Dyfodol</i> .	✓ Cwblhawyd. Ym mis Rhagfyr 2010 cytunodd Cyngor CCAUC i'r broses newydd ar gyfer gwneud cais am gynlluniau strategol ac adroddiadau cynnydd blynyddol prifysgolion o 2011 ymlaen.

Perfformiad yn erbyn Mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

12	Pwrpas	Annog cyrff llywodraethol i wella'u heffeithiolrwydd wrth lywio cyfeiriad strategol eu sefydliad.	
	Mesurwyd gan	Ni fydd unrhyw sefydliad addysg uwch yn cael ei ddsbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.	
		Gwaelodlin	Cynnydd
		2008/09	2009/10
	Ni chafodd unrhyw sefydliad AU ei ddsbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.		Ni chafodd unrhyw sefydliad AU ei ddsbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.

CCAUC fel sefydliad

Ein nod yw darparu amgylchedd lle y gall ein staff gyrraedd eu potensial llawn fel y gall CCAUC, yn ei dro, gyflawni ei amcanion polisi a darparu gwasanaeth effeithiol.

Fel corff cyfryngol rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru, rydym yn gweithredu o fewn amgylchedd yr ydym yn dylanwadu arno yn hytrach na'i reoli.

Atebolrwydd CCAUC

Mae Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol yn diffinio'r berthynas rhwng CCAUC a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru am y defnydd o'r cyllid cyhoeddus a roddir i CCAUC.

Bydd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd adolygu perfformiad chwarterol gyda'r Prif Weithredwr a staff CCAUC.

Archwilir ein cofnodion a'r cyfrifon gan swyddfa annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru).

Cyngor ac adran weithredol CCAUC

Yn ystod 2010–11, roedd gan y Cyngor 12 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd. Cafodd Cadeirydd y Cyngor ei ailbenodi yn ystod y flwyddyn, ac ymddiswyddodd un aelod.

Yn ystod 2011–11, cyfarfu'r Cyngor saith gwaith. Mae aseswr o Lywodraeth Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae gan Brif Weithredwyr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) a Chyngor Cyllido'r Alban, a Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru statws sylwedydd ar y Cyngor.

Rodd y nifer cyfartalog o swyddi cyfwerth ag amser-llawn yn CCAUC yn 2010–11 yn 52. Roedd hyn yn cynnwys swyddi amser-llawn, swyddi rhan-amser,

rhannu swyddi, neu benodiadau cyfnod penodol, staff ar secondiadau tymor byr a thymor hir, a myfyrwyr yn gweithio ar leoliadau o fewn CCAUC.

Mae ein nodau'n cynnwys:

- recriwtio a datblygu staff sy'n gweithio'n effeithiol ac sy'n amlygu gwerthoedd ac egwyddorion y corff
- asesu'n barhaus a nodi meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau a gweithredu fel y bo angen, gan gynnwys ym meysydd arweinyddiaeth a rheolaeth, er mwyn bodloni heriau'r dyfodol
- er mwyn cyflawni ein cenhadaeth, sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol ar gyfer ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, a bod cyfathrebiadau clir, hygyrch a strategol yn cynnal ein gweithrediadau mewnol a'n perthnasoedd â sector addysg uwch Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol eraill
- gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon, a bod yn gyflogwr model, a chadw'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl
- lleihau effaith amgylcheddol, gan gynnwys caffael cynaliadwy.

Yr hyn a wnawn

- Cynhyrchwn strategaeth gorfforaethol (sy'n nodi ein gweledigaeth a'n canlyniadau strategol tymor-hir) a chynllun gweithredol mwy manwl. Mae'r cynllun gweithredol yn cynnwys targedau a gweithredoedd a bennir gan Lywodraeth Cymru yn ei llythyr cylch gwaith blynyddol i CCAUC. Mae cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynlluniau yn cael ei adolygu bob chwarter gan ein Cyngor ni ac mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru.
- Mae gennym gofrestr risg corfforaethol lefel uchel sy'n nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion ein cynllun corfforaethol ac â'r amgylchedd ehangach rydym yn gweithredu oddi mewn iddo, a'r mesurau ar gyfer rheoli'r risgiau hynny. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei weithredu ar wahân i reoli risg sy'n gysylltiedig â thwyll.

- Mae gennym Gynllun Iaith Gymraeg sy'n amlinellu ein hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- Mae gennym Gynllun Cydraddoldeb, sy'n nodi ein hymrwymadau a'n cynlluniau ar gyfer unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn cynnwys ac yn ymgynghori â staff a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb wrth ddatblygu ein Cynllun a'n cynlluniau gweithredu cysylltiedig er mwyn iddynt gynnwys gweithredoedd sy'n ymdrin â CCAUC fel cyflogwr a pholisïau'n ymwneud â'r sector AU yng Nghymru.
- Rydym yn casglu gwybodaeth am staff ac ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchoddedig, i fonitro'r broses o wneud cais a pholisïau cyflogaeth, ac chael gwybod a ydynt yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal. Fel sefydliad bach, nid oeddem yn gallu cyhoeddi ein data ar gyfer 2010-11 heb i unigolion gael eu hadnabod.
- Mae gennym system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei gwirio'n allanol, a gweithiwn gyda'n staff i ddarganfod ffyrdd o wella perfformiad amgylcheddol a'u gweithredu.
- Rydym yn caffael ein nwyddau a'n gwasanaethau ar y cyd lle bynnag y bo'n bosibl, gan ddefnyddio technoleg i gefnogi'r swyddogaeth gaffael. Rydym yn cyflawni targedau Llywodraeth Cymru ar gaffael cynaliadwy ac effeithlonrwydd ac yn adrodd ar y buddion a gronwyd mewn perthynas â chaffael.
- Mae adolygiadau perfformiad a phrosesau monitro Llywodraeth Cymru, Buddsoddwyr mewn Pobl, arolygon rhanddeiliaid allanol ac arolygon staff mewnol i gyd yn asesu i ba raddau yr ydym yn cyflawni ein hamcanion.
- Rydym yn adolygu ein strwythur staffio a chymorth, a hefyd ein systemau ariannol ac eraill, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol i ddiogelu arian cyhoeddus a sicrhau gwerth am arian.

Mynediad i wybodaeth

Cynllun Cyhoeddi

Mae Cynllun Cyhoeddi CCAUC, a luniwyd o dan Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn nodi: y wybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi, neu'n bwriadu ei chyhoeddi, yn rheolaidd; sut y caiff y

wybodaeth hon ei chyhoeddi; ac a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl. Mae'r Cynllun Cyhoeddiadau ar gael yn www.hefcw.ac.uk neu ar ffurf copi caled ar gais.

Cod Ymarfer a chofrestr o fuddiannau

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Cyngor a'r staff gydymffurfio â Chod Ymarfer a chofrestru diddordebau ariannol, gwleidyddol ac eraill sy'n berthnasol i fusnes CCAUC. Mae'r gofrestr o fuddiannau'r Cyngor a buddiannau aelodau'r Cyngor ar gael drwy wneud cais i Glerc y Cyngor neu ar ein gwefan, www.hefcw.ac.uk.

Cwynion

Rydym yn gweithredu Gweithdrefn Gwyno yn Erbyn CCAUC a gall Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ymchwilio i CCAUC. Ni chawsom unrhyw geisiadau i ystyried cwynion o dan y Weithdrefn Gwyno yn ystod y flwyddyn.

Gweithgareddau yn 2010-11

- Gwnaethom ymgynghori ar y ffordd orau o weithredu strategaeth a chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch, *Er Mwyn ein Dyfodol*, a daethpwyd i'r casgliad mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn oedd trwy ein **Strategaeth Gorfforaethol** ein hunain, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010.
- Gwnaethom gytuno i **raglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd** y sector cyhoeddus sydd â'r nod o hyrwyddo cydweithio ac arloesedd, a sicrhau welliannau ac arbedion cost.
- Cymeradwywyd ein **Cynllun Iaith Gymraeg** newydd ym mis Tachwedd 2010.
- Mae CCAUC wedi cadw ei achrediad yn erbyn y **Safon System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO 27001** ers sicrhau ardystiad ym mis Medi 2007.

Pwyllgorau a gweithgorau'r Cyngor yn 2010–11

Cadeirydd Y Pwyllgor Penodiadau: **Roger Thomas**

Cadeirydd Y Pwyllgor Tâl: **Roger Thomas**

Cadeirydd Y Pwyllgor Archwilio a Risg: **David Allen**

Cadeirydd Y Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud: **Yr Athro Robin Williams**

Cadeirydd Y Pwyllgor Adnoddau Dynol: **Nina Park**

Cadeirydd Y Pwyllgor Ailgyflunio a Chydweithio: **Y Fonesig Sandra Burslem**

Cadeirydd Y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd: **Yr Athro Leni Oglesby**

Aelodau'r Cyngor yn ystod 2010–11

Cadeirydd

Roger Thomas

Cyn Gadeirydd y Llywodraethwyr

Prifysgol Morgannwg

5 Mai 2008 hyd 4 Mai 2011;

ailbenodwyd: 5 Mai 2011 hyd 4 Mai 2014

Bu Roger Thomas OBE, CCMI, FRSA, OSTJ yn Gadeirydd Llywodraethwyr a Dirprwy Ganghellor Prifysgol Morgannwg, ac yn Gadeirydd Cadeiryddion Addysg Uwch Cymru. Yn rhinwedd y swydd ddiwethaf roedd yn aelod o Grŵp Cadeiryddion Pwyllgor Cadeiryddion y Brifysgol (CUC). Roedd hefyd yn Aelod o'r Bwrdd Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA) a Chydbwyllgor Negodi ar gyfer Staff Addysg Uwch.

Y tu allan i addysg uwch, mae Roger yn Ddirprwy Gadeirydd Business in Focus Ltd (asiantaeth fenter), mae'n farnwr gyda Llys Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru a than yn ddiweddar roedd yn aelod o CBI Cymru. Bu gynt yn uwch bartner gyda chyfreithwyr Eversheds yng Nghaerdydd, yn is-lywydd Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, yn gyfarwyddwr gydag Opera Cenedlaethol Cymru, yn Is-gadeirydd gyda Techniquet ac yn aelod o Gyngor Prifysgol Caerdydd. Mae Roger Thomas yn Uchel Siryf yn Ne Morgannwg ar gyfer 2011/12.

Aelodau eraill

Yr Athro Philip Gummett

Prif Weithredwr

O Fai 2004

Philip Gummett yw Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Ymunodd â CCAUC o Brifysgol Manceinion lle'r oedd yn Ddirprwy Is-Ganghellor, yn gyn Bennaeth yr Adran Llywodraeth ac yn Athro Llywodraeth a Pholisi Technoleg. Roedd yn un o sefydlwyr ac yn gyfarwyddwr anweithredol PREST (Ymchwil Polisi mewn Peirianeg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg) ym Manceinion – un o'r canolfannau ymchwil polisi mwyaf blaenllaw yn y byd. Mae ef hefyd yn gyn aelod ac yn gyn Gadeirydd Bwrdd yr Arholwyr, Bwrdd Hyfforddiant y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Mae'n gydymaith y Sefydliad Rheolwyr Siartredig.

David Allen

Cofrestrydd a Dirprwy Brif Weithredwr

Prifysgol Caerwysg

1 Rhagfyr 2008 hyd 30 Tachwedd 2011

Bu David Allen yn Gofrestrydd ac Ysgrifennydd Prifysgol Caerwysg ers 2003 ac yn Ddirprwy Brif Weithredwr ers 2009. Tan fis Tachwedd 2010, roedd David yn gwasanaethu ar Fwrdd y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch ac yn gadeirydd ei Bwyllgor Archwilio. Mae'n aelod o Bwyllgor Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Rheolaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a hefyd yn gwasanaethu ar ei Grŵp Cyngor Gwasanaethau a Rennir.

James Bennett

Prifathro / Prif Weithredwr, Coleg Gwent
Penodwyd 1 Ebrill 2010; cyfnod o absenoldeb o fis Mai 2010; daeth ei aelodaeth i ben 5 Ebrill 2011

Penodwyd James (Jim) Bennett yn aelod newydd o Gyngor CCAUC o 1 Ebrill 2010 ond dechreuodd gyfnod o absenoldeb ym mis Mai 2010 ar ôl cael ei benodi'n Brifathro dros dro ar gyfer Coleg Gwent. Cymerodd Jim absenoldeb di-dâl o'r Cyngor tan fis Mai 2011 pan ymddiswyddodd yn dilyn cadarnhad o'i benodiad fel Prifathro a Phrif Weithredwr Coleg Gwent.

Y Fonesig Alexandra (Sandra) Burslem

Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Manceinion
1 Rhagfyr 2008 hyd 30 Tachwedd 2011

Bu'r Fonesig Sandra yn Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Manceinion rhwng 1997-2005. Roedd yn Gomisiynydd Gwasanaeth Sifil rhwng 2005-10. Mae'n cadeirio Pwyllgor Anrhydeddau Addysg, a hi yw Cadeirydd Annibynnol cyntaf partneriaeth Addysg-DU y Cyngor Prydeinig. Mae Sandra hefyd yn eistedd ar Fyrddau nifer o sefydliadau addysg. Derbyniodd OBE am ei gwasanaeth i addysg uwch yn 1992, a daeth yn Fonesig Gomander yr Ymerodraeth Brydeinig yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2004. Roedd yn Uchel Siryf Fanceinion Fwyaf yn 2006-07.

Bethan Guilfoyle

Cyn Bennaeth Ysgol Gyfun Treorci
1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2013

Rhwng 1996 a 2011, roedd Bethan Guilfoyle yn Bennaeth yn Ysgol Gyfun Treorci ym mhen uchaf Cwm Rhondda Fawr - ysgol o 1,560 o fyfyrwyr, gan gynnwys 325 o fyfyrwyr chweched dosbarth. Mae hi'n aelod o'r Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac roedd yn un o lywodraethwyr Prifysgol Morgannwg. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Ym mis Ionawr 2010 derbyniodd CBE am ei gwasanaeth i addysg yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

Yr Athro Mari Lloyd-Williams

Uwch Academydd Clinigol, Prifysgol Lerpwl
1 Ionawr 2007 hyd 31 Rhagfyr 2009; ailbenodwyd 1 Ionawr 2010 hyd 31 Rhagfyr 2012

Ers 2003 mae'r Athro Lloyd-Williams wedi dal cadair bersonol yng Nghyfadrann Meddygaeth Prifysgol Lerpwl, lle y mae hefyd yn ymgynghorwr mewn meddygaeth liniarol ac yn Gyfarwyddwr un o gymunedau addysg feddygol mwyaf y DU. Yn ddiweddar roedd yn Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus ac yn Arweinydd Meddygol Hosbis LOROS, Caerlŷr. Mae ganddi brofiad eang o gadeirio ac eistedd ar bwyllgorau rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys, ar hyn o bryd, pwyllgor ymddygiad proffesiynol y Cyngor Meddygol Cyffredinol a phwyllgor yr Adran Iechyd ar ofal seicogymdeithasol.

David Mason

Cyn Brifathro a Phrif Weithredwr, Coleg Gwent
1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2013

Ymdeolodd David Mason ym mis Chwefror 2004 ar ôl bod yn Brifathro/Prif Weithredwr Coleg Gwent am chwe blynedd. Cyn hynny bu'n Bennaeth dau goleg yn Lloegr, ac mae wedi dal uwch swyddi gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil. Ers ymdeol, mae David wedi ymgymryd â nifer o brosiectau ymgynghori rhan amser, yn cynnwys dwy swydd fel Prifathro dros dro, y naill yn rheoli cau coleg a'r llall yn rheoli cyfuno colegau. Bu David yn aelod o Fwrdd Cymdeithas y Colegau, yn Is Gadeirydd Fforwm (Colegau Cymru bellach), ac yn Gyfarwyddwr anweithredol Gyrfa Cymru (Gwent) Cyfyngedig. Bu hefyd yn gweithio i Sefydliad y Cyfarwyddwyr fel Swyddog Cyswllt Addysg dros Gymru ac mae Prifysgol Cymru, Casnewydd wedi'i ethol yn Gymrawd Anrhydeddus.

Yr Athro Katherine Leni Oglesby

Cyn Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor

Prifysgol Teesside

1 Rhagfyr 2008 hyd 30 Tachwedd 2011

Mae'r Athro Oglesby wedi dal swyddi academiaidd ac uwch reolwr ym Mhrifysgolion Caerlŷr, Sheffield, Caerhirfryn, Surrey a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion, a bu ar secondiad i Adran Polisi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Mae ganddi brofiad helaeth o asiantaethau rhyngwladol, Ewropeaidd, cenedlaethol a rhanbarthol, a bu'n aelod o baneli CCAULI (HEFCE) a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Graddiodd ym Mhrifysgol Caerdydd, ac ymgwymerodd ag astudiaethau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerlŷr. Mae hi hefyd yn gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau ac ar hyn o bryd mae hi'n aelod o Bwyllgor Cyngori Strategol ar Ehangu Mynediad a Chyfranogiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

Nina Park

Is-Lywydd Control Techniques

1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2013

Bu Nina Park yn Is-Lywydd Control Techniques ers 2007 mae ganddi gyfrifoldeb byd-eang dros adnoddau dynol. Mae pencadlys Control Techniques, sy'n gweithgynhyrchu technolegau rheoli moduron a thrawsnewid pŵer ar gyfer cymwysiadau masnachol a diwydiannol, yn y Drenewydd, Powys, ac mae'n rhan o Emerson, cwmni amlwladol gwerth \$25 biliwn sy'n cyflogi 134,000 o weithwyr. Graddiodd Nina o Brifysgol Oxford Brookes gyda BA (Anrh) yn Saesneg, y Gyfraith, Gwleidyddiaeth a Hanes a dechreuodd ei gyrfa mewn recriwtio cyn symud i adnoddau dynol, a bu'n dal nifer o swyddi uwch cyn ymuno ag Emerson yn 2005. Mae ganddi radd Meistr mewn Rheoli Adnoddau Dynol ac mae'n aelod o'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Datblygu a Phersonél.

Yr Athro Syr Brian Smith

Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

1 Rhagfyr 2002 hyd 30 Tachwedd 2005;

ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2005 hyd 30 Tachwedd

2008; ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2008 hyd 30

Tachwedd 2011

Penodwyd Syr Brian yn Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd ym 1993, ac ymddeolodd yn 2001. Cyn hynny bu'n feistr Coleg y Santes Catherine ym Mhrifysgol Rhydychen. Urddwyd ef yn farchog ym 1999, mewn cydnabyddiaeth o'i lwyddiant i adeiladu cysylltiadau o fudd i'r naill ochr a'r llall rhwng y Brifysgol a diwydiant a masnach. Hefyd bu Syr Brian yn gwasanaethu gydag Awdurdod Datblygu Cymru o fis Hydref 1998, gan helpu i agor marchnadoedd i Gymru yn India a Tseina. Mae Syr Brian yn Llysgennad Rhyngwladol dros Brifysgol Caerdydd.

Yr Athro Robin Williams

Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

1 Awst 2009 hyd 31 Gorffennaf 2012

Yr Athro Robin Williams oedd Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe o 1994 hyd 2003. Cyn hynny roedd yn Bennaeth Ffiseg a Seryddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd lle yr oedd yn Is-Brifathro hefyd. Roedd llawer o'i ymchwil yn cynnwys cydweithio â diwydiant ar hyd a lled y byd ac mae ef wedi cadeirio amrywiaeth eang o bwyllgorau cenedlaethol a rhyngwladol ym meysydd ffiseg a pheirianeg. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol a rhoddwyd CBE iddo am ei gyfraniad at ymchwil ac addysg uwch. Mae ef wedi gwasanaethu ar y Grwpiau Cyngori Gweinidogion ar gyfer datblygu economaidd ac ar gyfer addysg yng Nghymru ac roedd yn aelod o'r grŵp a sefydlwyd i adolygu addysg uwch. Bu'n cadeirio'r Bwrdd Cynllunio a luniodd adroddiad annibynnol ar fodel ar gyfer y Coleg Ffederal a sefydlwyd bellach fel Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganiadau Ariannol Cryno

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011

Datganiadau ariannol cryno

Crynodeb o gyfrifon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011 yw'r datganiadau ariannol sy'n dilyn.

Mae'r datganiadau'n rhoi darlun cyffredinol yn unig ac nid ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth i allu deall yn llawn ganlyniadau a sefyllfa CCAUC. I gael gwybodaeth bellach, dylid astudio'r cyfrifon blynyddol llawn ac adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hyn. Gellir cael copi o'r cyfrifon archwiliedig, sy'n cynnwys y wybodaeth fanwl sy'n ofynnol o dan y gyfraith ac o dan y canllawiau arfer gorau, yn ddi-dâl gan Glerc y Cyngor, CCAUC, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ.

Cefndir statudol

Cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei sefydlu o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 7 Mai 1999, cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei greu a throsglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig iddo ar 1 Gorffennaf 1999. Yn sgil hyn, daeth CCAUC yn gorff a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, daeth CCAUC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, ac yn sgil ethol llywodraeth newydd ym mis Mai 2011, mae'n cael ei alw'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC).

Mae CCAUC yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cymru, ac eraill, i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch Cymru a chyrtsiau addysg uwch penodedig a ddarperir yn sefydliadau'r awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac am gyflawni'r swyddogaethau atodol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Rydym yn gyfrifol am hyfforddiant cychwynnol athrawon o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Y costau gweithredol net am y flwyddyn oedd £455.6 miliwn (costau gweithredol net 2009-10 £475.2 filiwn). Y gronfa gyffredinol gronnu ar 31 Mawrth 2011, ar ôl credydu cyllid cymorth grant o £456.9 miliwn, oedd £5.5 miliwn (2009-10 £4.3 miliwn).

Aelodau'r Cyngor

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad:

Cadeirydd

Mr Roger Thomas OBE

(penodwyd 5 Mai 2008)

Cyn Gadeirydd y Llywodraethwyr a Dirprwy Ganghellor Prifysgol Morgannwg

Aelodau

Yr Athro Philip Gummatt

Prif Weithredwr,

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Mr David Allen

(penodwyd 1 Rhagfyr 2008)

Cofrestrydd a Dirprwy Brif Weithredwr Prifysgol Caerwysg

Y Fonesig Alexandra Burslem

(penodwyd 1 Rhagfyr 2008)

Cyn Is-Ganghellor

Prifysgol Fetropolitan Manceinion

Yr Athro Mari Lloyd-Williams

(ail-benodwyd 1 Ionawr 2010)

Uwch Academydd Clinigol, Prifysgol Lerpwl

Yr Athro Katherine Oglesby

(penodwyd 1 Rhagfyr 2008)

Cyn Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor

Prifysgol Glannau Tees

Yr Athro Syr Brian Smith

(ail-benodwyd 1 Rhagfyr 2008)

Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Robin Williams CBE

(penodwyd 1 Awst 2009)

Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

Mr James Bennett

(penodwyd 1 Ebrill 2010, ymddiswyddodd
5 Ebrill 2011)

Cyn Brifathro Coleg South Tyneside

Mrs Bethan Guilfoyle

(penodwyd 1 Ebrill 2010)

Prifathrawes Ysgol Gyfun Treorci

Mr David Mason

(penodwyd 1 Ebrill 2010)

Cyn Brifathro/Prif Weithredwr Coleg Gwent

Ms Nina Park

(penodwyd 1 Ebrill 2010)

Is-Lywydd Control Techniques

Bu Aelodau canlynol y Cyngor yn gwasanaethu ar bwyllgorau a phaneli CCAUC yn ystod y flwyddyn:

Pwyllgorau	Aelodau
Profiad myfyrwyr, addysgu ac ansawdd	Yr Athro Katherine Oglesby (Cadeirydd), Mrs Bethan Guilfoyle, Mr David Mason (o 24 Medi 2010), Yr Athro Mari Lloyd-Williams
Ymchwil, arloesedd ac ymgysylltu	Yr Athro Robin Williams (Cadeirydd), Yr Athro Syr Brian Smith, Ms Nina Park
Archwilio a risg	Mr David Allen (Cadeirydd), Mr David Mason (o 24 Medi 2010), un lle gwag
Ailgyflunio a chydweithio	Y Fonesig Alexandra Burslem (Cadeirydd), Mr David Mason, Yr Athro Syr Brian Smith, Yr Athro Robin Williams, Yr Athro Philip Gummett
Adnoddau dynol	Y Fonesig Alexandra Burslem (Cadeirydd hyd 10 Rhagfyr 2010), Ms Nina Park (Cadeirydd o 11 Rhagfyr 2010)
Tâl	Mr Roger Thomas (Cadeirydd), Y Fonesig Alexandra Burslem, Ms Nina Park
Penodiadau	Mr Roger Thomas (Cadeirydd), Mr David Allen, Y Fonesig Alexandra Burslem, Yr Athro Katherine Oglesby, Yr Athro Robin Williams, Ms Nina Park (o 11 Rhagfyr 2010), Yr Athro Philip Gummett

Archwilwyr

Roedd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon blynyddol llawn CCAUC am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011 yn ddiamod.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y datganiadau ariannol cryno

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol cryno cyfrifon statudol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sydd i'w cael ar dudalennau 46 i 49.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw nodi fy marn ar ba un a yw'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r cyfrifon statudol. Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried goblygiadau fy adroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy ngwaith yn unol â Bwletin 1999/6 'The auditors' statement on the summary financial statement' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â chyfrifon statudol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011 yr wyf wedi rhoi barn ddiamod arnynt.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ
13 Gorffennaf 2011

Datganiad cryno ar wariant net cynhwysfawr*am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011*

	2011		2010	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant				
<i>Cyllido addysg uwch:</i>				
Gwariant rheolaidd	431,595		437,742	
Gwariant cyfalaf	17,223		24,284	
Dibenion eraill	28,204		22,128	
	<u>477,022</u>		<u>484,154</u>	
<i>Gwariant y cyngor:</i>				
Costau staff	2,243		2,243	
Dibrisiant	76		85	
Amorteiddiad	-		1	
Gwariant arall	593		645	
	<u>2,914</u>		<u>2,974</u>	
Cyfanswm gwariant		<u>479,936</u>		<u>487,128</u>
Incwm				
Incwm o weithgareddau		<u>24,299</u>		<u>11,935</u>
Costau gweithredol net		(455,637)		(475,193)
Llog y gellir ei dderbyn		4		3
Adfeddiannau		(4)		(3)
Costau gweithredol net ar ôl llog a drosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol		<u>(455,637)</u>		<u>(475,193)</u>

Datganiad cryno ar y sefyllfa ariannol

ar 31 Mawrth 2011

	Ar 31 Mawrth 2011	Ar 31 Mawrth 2010	Ar 1 Ebrill 2009
	£'000	£'000	£'000
<i>Asedau anghyfredol</i>			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	184	166	201
Asedau anghyffyrddadwy	-	-	1
Cyfanswm asedau anghyfredol	184	166	202
<i>Asedau cyfredol</i>			
Masnach a symiau eraill y gellir eu derbyn	804	820	212
Arian a chyfwerthoedd arian	5,515	4,360	5,625
Cyfanswm asedau cyfredol	6,319	5,180	5,837
Cyfanswm asedau	6,503	5,346	6,039
<i>Rhwymedigaethau cyfredol</i>			
Masnach a symiau eraill y gellir eu talu	(927)	(1,000)	(796)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau o fewn un flwyddyn	(7)	(7)	-
Cyfanswm asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net	5,569	4,339	5,243
<i>Rhwymedigaethau anghyfredol</i>			
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ôl un flwyddyn	(22)	(24)	-
Asedau tynnu rhwymedigaethau	5,547	4,315	5,243
<i>Cronfeydd</i>			
Cronfa gyffredinol	5,547	4,315	5,243
	5,547	4,315	5,243

Datganiad cryno ar lifoedd arian

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011

	2011	2010
	£'000	£'000
All-lifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredol	(455,618)	(475,480)
Llifoedd arian parod net o adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid	-	-
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	(96)	(50)
Llifoedd arian parod net o weithgareddau ariannu	456,869	474,265
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod	1,155	(1,265)

Datganiadau ar newidiadau mewn cronfeydd

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011

	Cronfa gyffredinol
	£'000
Gweddill ar 1 Ebrill 2010	
Fel y datganwyd yn flaenorol	4,315
<i>Addasiadau cyfnod blaenorol</i>	
Cost taliadau cyfalaf o'r Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr (nid oes angen ei hadrodd bellach)	167
Taliadau heb fod yn arian parod – cost addasiad cyfalaf a gredydwyd yn flaenorol i'r gronfa gyffredinol (nid oes angen ei hadrodd bellach)	(167)
Gweddill ar 1 Ebrill 2010 – ailddatganwyd	4,315
<i>Newidiadau mewn cronfeydd 2010-11</i>	
Costau gweithredol net	(455,637)
Cyfanswm incwm a threuliau cydnabyddedig ar gyfer 2010-11	(455,637)
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	456,869
Gweddill ar 31 Mawrth 2011	5,547

Nodiadau

1. Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol cryno o dan y confensiwn cost hanesyddol, gan gyfeirio at Ddeddf Cwmnïau 1985, a chan gymryd i ystyriaeth Reoliadau Cwmnïau (Datganiad Ariannol Cryno) 1995 (Offeryn Statudol 1995/2092) i'r graddau y maent yn berthnasol, a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2009-10, ac maent yn cydymffurfio â chyfarwyddyd a wnaed gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2), atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.



Yr Athro Philip Gummatt
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
13 Gorffennaf 2011